Gwerthodd fy nhaid ei geffyl. Mae'r brenin yn llywodraethu ei wlad yn ddoeth. Torodd fy mrawd ei fys a'r gyllell. Y mae'r cybydd yn cyfrif ei arian. Y mae'r crydd yn trwsio ei esgid. Y mae'r fam yn hiraethu am ei phlentyn. Dechreuwa forwyn ei gwaith cyn dydd bob boreu. Y mae Jane yn dymuno cael ei llyfr. Y mae'r gaseg wedi colli ei phedol wrth neidio dros y clawdd. Y mae'r halen wedi colli ei flas. Colla y goeden ei dail bob blwyddyn. Syrthiodd y baban ar ei wyneb. Y mae'r afon wedi llifo dros ei glantau. Y mae'r plentyn yn cysgu yn ei gryd. Y mae'r gareg yn syrthio wrth ei phwysau ei hun. Y mae ei fam yn defnyddio ei gwniadyr i wno.

GEIRFA (Vocabulary).

LLYWODRAETHU, governs, rules.	CASEG, mare.
YN DDOETH, wisely.	PEDOL, shoe.
TORODD, cut.	WRTH NEIDIO, whilst jumping.
A'R GYLLELL, with the knife.	CLAWDD, hedge.
CYBYDD, miser.	HALEN, salt.
CYFREF, counts.	BLAS, savour.
CRYDD, shoemaker.	COLLA, loses.
TRWSIO, mends, repairs.	WEDI LLIFO, has overflowed.
HIRAETHU, longs.	GLANAU, banks.
DECHREUWA, begins.	CRYD, cradle.
CYN-DYDD, before daylight.	WRTH EI PHWYSAU EI HUN, by its own weight.
DYMUNO CAEL, wishes to have.	DEFNYDDIO, uses.
GWNIADYR, thimble.	GWNIO, sew.

PRONOUNS (RHAGENWAU).

Efe, ef, e, o (Masc)=he (Nom.), him (Obj.); it (Neut.)

Hi (Fem.)=she (Nom.), her (Obj.); it (Neut.)

Hwy, &c.=they (Nom.), them (Obj.)

Y mae hi yn eistedd o flaen ei thŷ, a'i chath wrth ei hochr. Y maent hwy yn difyru eu hunain mewn amryw ffyrdd ar ol gwneyd eu gwersi. Y mae hi yn oer iawn heno. Y mae hi yn gwlawio. Y mae hi yn bwrw eira. Y mae'r gath yn cysgu o flaen y tân, ac yn mwynhau ei hun yn dda. Rhuthrodd y ci ar y gath yn ddisymwth, ond yr oedd hi yn barod i'w gyfarfod ef. Gafaelodd y ci yn ei chynffon, ond tarawodd hi ef a'i phawen a'i holl nerth. Y mae'r dderwen wedi colli ei dail, ac y mae hi yn ymddangos yn noeth iawn. Y mae Mary yn iach heddyw, ond yr oedd hi a'i mham yn cwyno ddoe. Y mae tân braf yn ein tŷ ni. Y mae dodrefn gwerthfawr yn eich tŷ chwi. Y mae hi yn naw o'r gloch. Yr oedd coeden fawr wrth gefn ein tŷ ni; y mae hi wedi syrthio yn awr. Collais fy ffon, ond yr oedd fy enw arni. Collais lyfr heb fy enw arno. Pasiodd y dyn y ceffyl heb sylwi arno. Pasiodd y dyn y ddafad heb sylwi arni. Cefais y fuwch ar ol chwilio am dani, ond methais ddyfod o hyd i'r hwrdd er i mi chwilio am dano yn ddyfal. Yr oedd y milwr wedi saethu ei hun cyn y gellid ei rwystro. Yr oedd y ddynes wedi boddi cyn y gellid ei hachub.

Dyma y ddafad y bum yn chwilio am dani. Dyma y tarw y bu fy nhad yn chwilio am dano drwy y boreu. Hwn yw y llyfr y bu Ioan yn chwilio am dano drwy'r dydd.

GEIRFA (Vocabulary).

EISTEDD, sits.	DERWEN, oak.
WRTH EI HOCHER, by her side.	YMDDANGOS, appears.
DIFYRU EU HUNAIN, amuse themselves.	NOETH, bare.
AMEYW, many, several	CWYNO, complain.
AE OL GWNEUD, after doing.	TAN BRAF, good fire.
HENO, to-night.	DODREFN GWERTHFAWR, costly furniture.
GWLAWIO, rains.	WRTH GEFN, behind, at the back of.
BWRW EIRA, snows (verb)	FFON, stick.
MWYNHAU, enjoys.	ENW ARNI, name on it.
EI HUN, himself, herself.	GAFAELODD, took hold (of).
RHUTHRODD, rushed.	HEB FY ENW ARNO, without my name on it.
YN DDISYMWTH, suddenly.	HEB SYLWI ARNO, without noticing him.
PAROD, ready.	CHWILIO, search.
I'W GYFARFOD EF, to meet him.	METHAIS, I failed.
CYNFFON, tail.	DYFOD O HYD, to find.
TARAWODD, struck.	HWRDD, ram.
PAWEN, paw.	ER I MI CHWILIO, though I searched.
A'I HOLL NERTH, with all her might.	YN DDYFAL, diligently.
CYN Y GELLID EI RWYSTRO, before he could be stopped.	TARW, bull.
DYMA Y DDAFAD Y BUM YN CHWILIO AM DANI, this is the sheep I have been searching for.	

CORRECT:—Mary has torn his book. Jane went over the mountain himself, and he lost his way. He is raining every day. She snows in winter. The children learn his lessons. They caught him by its neck. This is your book, your name is on him. This flower has shed his leaves; he has now no smell. The people are at its work. These poor women have their share of grief. The door has lost his hinges. The river has overflowed her banks. The lady found his purse, he was in his bag. My niece reads his new book.

PRONOUNS (RHAGENWAU).

Ei (Sing.)=his, her, its; him. *Eu* (Plur.)=their; them.

Colodd y dderwen ei dail. Sychodd y weddw ei dagrau. Y mae gan y foneddiges berlau gwerthfawr yn ei meddiant. Llwythodd y dyn ei asyn nes torodd ef ei gefn. Cydiodd yr heddgeidwad yn ei wddf, a tharawodd ef ar ei ben. Fe ddialodd yr elephant ar y dyn, yr hwn oedd wedi ei gamdrin. Yr oeddent wedi ei ddal ef. Yr ydym wedi ei saethu ef.

Y mae'r tlodion wedi derbyn eu harian. Yr oedd eu tywysogion wedi

eu lladd. Y mae'r gwartheg yn rhoddi eu llaeth i'r godrwr. Y mae'r milwyr wedi colli eu harweinwyr. Y mae'r cŵn yn y tŷ, ond nid ydym wedi eu gweled. Y mae'r helwyr wedi eu lladd. Er eu bod yn barod, ni wnai'r plant ddyfod gyda mi. Y mae'r ffermwyr heb gywain (gario) yr fd etto, canys y mae'r tywydd yn eu rhwystro.

Tafodd y morwyr eu hunain dros y bwrdd i'r môr. Lladdodd y cybudd ei hun. Y maent yn caru eu gilydd.

GEIRFA (Vocabulary).

GWEDDW, widow.	GODRWR, milker.
DAGRAU, tears.	ARWEINWYR, leaders.
Y MAE GAN Y FONEDDIGES, the lady has.	MAE WEDI EU LLADD, have been killed.
MEDDIANT, possession.	ER EU BOD YN BAROD, though they were ready.
LLWYTHODD, loaded, NES, so that.	NI WNAI DDYFOD, would not come.
HEDDGEIDWAD, policeman,	CYWAIN, carry; cart (Verb).
DIALODD, revenged; avenged.	ETTO, yet.
YE HWN, who.	TYWYDD, weather.
CAMDRIN, ill-use.	RHWYSTRO, prevent.
OEDDENT WEDI EI DDAL, had caught.	MOBWYR, sailors.
DERBYN, receive.	EU HUNAIN, themselves.
OEDD WEDI EU LLADD, had been killed.	DROS Y BWEDD, overboard.
GWARTHAG, cows.	CARU EU GILYDD, love each other.
	HELWYR, hunters.

PRONOUNS (RHAGENWAD).

Dysgodd *fy* nith *ei* gwera heb (yn) wybod *iddi*.

Dysgodd *eich* nai *ei* wera heb (yn) wybod *iddo*.

Aeth *fy nghyfaill* ymaith heb (yn) wybod *i mi*.

Syrthiodd y llwynogod i'r fagl heb wybod *iddynt*.

Rhoddwch fara iddynt. Canwch iddynt. Gwerthais fuwch iddo. Nid oeddwn o fewn cyrhaedd iddo. Nid oeddwn o fewn cyrhaedd iddi. Rhoddodd yr athraw wobr iddi. Aethum gartref hebddi. Wedi iddo godi y gareg i fyny, gadawodd iddi syrthio drachefn. Wedi iddi ddarlenn y llyfr, gadawodd iddo syrthio. Gwelodd y milgi yr ysgyfarnog a rhedodd ati, gyda'r cŵn eraill ar ei ol. Rhedodd y fam ato, gyda'r bobl eraill ar ei hol. Ni welais mo hono. Ni welais mo honi. Ni welais mo honyt. Mi ddywedais wrtho am beidio myned. Mi ddywedais wrthi am beidio myned. Methodd Dafydd gael y tegan o fewn cyrhaedd iddo. Aeth y bachgen i'r ffair heb ganiatad ei fam.

GEIRFA (Vocabulary).

DYSGODD, learnt.	WEDI IDDO GODI, after he had raised.
NTH, niece.	GADAWODD, let.
NAI, nephew.	TRACHEFN, again.
HEB YN WYBOD IDDI, without her knowing.	MILGI, greyhound.

HEB YN WYBOD I MI, without my knowing.	GYDA'R CWN ERAILL, with the other dogs.
MAGL. trap.	NI WELAIS MO HONO, I did not see him.
HEB YN WYBOD IDDYNT, without their knowing.	AM BEIDIO MYNED, not to go.
IDDYNT, them; to them.	TEGAN, toy.
O FEWN CYRHAEDD IDDO, within his reach; within reach of him.	HEB GANIATAD EI FAM, without his mother's permission.
HEBDDI, without her.	CANIATAD, permission.

RELATIVE PRONOUNS (RHAGENWAW PERTHYNOL).

The common Relatives in Welsh are:—

<i>Singular.</i>	<i>Plural.</i>
<i>Yr hwn</i> (Masc.); <i>Yr hon</i> (Fem.).	<i>Yr hyn, Yrhai</i> (Masc. and Fem.).
<i>Ag; Pa un.</i>	<i>Pa rai.</i>

In English they are, who; which; that; what. *Who* stands for persons only; *Which* for animals and things; *That* may stand for persons, animals, and things.

In Welsh the Relative is often left out.

Cyfarfyddais Dafydd, yr hwn sydd yn gweithio yn y gwaith aur. Yr oedd geneth yn byw yn y pentref, yr hon oedd yn dlos iawn. Y mae hen ŵr yn byw yn y fferm yma, yr hwn sydd dros bedwar ugain oed. Prynais geffyl, yr hwn sydd yn gloff. Lladdodd y dyn fochyn, yr hwn sydd yn pwyso dau can' pwys. Mi gollais frân ddof, yr hon oedd wedi bod genyf am fis oedd. Cefais y llyfr hwn gan ewythr i mi, yr hwn sydd yn awr yn byw yn y Gogledd. Drawg genyf hysbysu am farwolaeth fy nghyfaill, yr hyn gymerodd le yn mis Medi diweddar. Gwnai yn wastad yr hyn a fedrai. Y mae plant da yn talu sylw i'r hyn a ddywed eu hathrawon. Pwy bynag a wnelo hyn a gaiff wobr. Fe fethodd Llewelyn yn ei arholiad, yr hyn achosodd siomedigaeth fawr i mi.

GEIRFA (Vocabulary).

CYFARFYDDAIS DAFYDD, I met David.	DIWEDDAR, last.
GWAITH AUR, gold mine.	GWNAI, he did.
TLOS—tlos. (<i>fem.</i>)—pretty.	YE HYN A FEDRAI, what he could.
CLOFF, lame.	TALU SYLW, pay attention. <i>Remember:</i> pay attention (to); take notice (of).
PWYSO, weighs.	I'R HYN, to what.
PWYS, pound; lb.	PWY BYNAG, whoever.
BRAN DDOF, tame crow.	A WNELO, shall do.
GAN EWYTHR I MI, from an uncle of mine.	A GAIFF, shall have.
GOGLEDD, North (Wales.)	GWOBR, reward.
DRWG GENYF, I am sorry.	ARHOLIAD, examination.
HYSBYSU AM, to inform of.	YE HYN ACHOSODD, which caused.
YE HYN, which.	SIOMEDIGAETH, disappointment.
MIS MEDI, September.	MAWE, great.

Dyma y llyfr oedd ar y bwrdd. Dangosodd yr anifail fedr oedd bron yn ddynol. Aeth yr elephant yn ol at y teiliwr oedd wedi ei gamdrin. Lladdodd eich elwaer fach y cywion oeddynt dan yr iâr. Cafodd ei saethu gan y gelynyion oeddynt ar y bryniau cyfagos. Cynyglais fy ngheffyl i unrhyw un (i'r sawl) a ddewisai ei farchogaeth. Golchodd y llif y bont ymaith oedd yn croesi yr afon. Rhedais at y llanc oedd yn sefyll ar y bont. Nid wyf yn adwaen y pregethwr sydd yn pregethu gyda ni y Sul nesaf. Dychrynwyd y ceffyl gan y fellten a fflachiodd o'i flaen. Yr oedd yn mysg y dyrfa a fwriadai weled Manceinion was fferm o gymydoggaeth Aberteifi. Nid oeddwn yn adnabod y boneddwr oedd yn y tŷ. Ni welais yr areithiwr oedd yno. Gorchuddiwyd yr holl fynyddau gan eira nas gwelwyd ei fath erioed o'r blaen. Gorchuddiwyd yr holl ddyffryn gan ddŵr nas gwelwyd ei fath er's blynyddau. Dywedodd wrth bawb ag oedd o fewn clywed. Y mae dynion drwg yn y byd y rhai ydynt warth i gymdeithas. Cofiodd fod gŵf oedd yn aml yn dal adar yn byw yn y pentref gerllaw.

GEIRFA (Vocabulary).

DYMA, this is ; here is.	PREGETHWR, preacher.
OEDD, that was.	SYDD YN PREGETHU, that preaches.
MEDR, skill, cleverness.	DYCHRYNWDYD, frightened.
BRON YN DDYNOL, almost human.	MELLTEN, lightning.
CAMDWIN, ill-use.	A FFLACHIODD, that flashed.
OEDD WEDI EI GAMDRIN, that had	YN MYSG, in.
CYWION, chickens.	TYRFA, crowd.
OEDDYNT, that were.	BWRIADAI, intended.
GELYNYION, enemy ; (<i>Sing. in Eng.</i>)	MANCEINION, Manchester.
CYFAGOS, neighbouring.	GWAS FFERM, farm servant.
CYNYGLAIS, I offered.	CYMYDOGAETH ABERTEIFI, neighbourhood of Cardigan.
UNRHYW UN, any one.	AREITHIWR, lecturer.
A DDEWISAI, that chose.	GORCHUDDIWDYD, were covered.
MARCHOGAETH, ride.	NAS GWELWYD EI FATH ERIOED, the like of which was never seen.
GERLLAW, neighbouring.	O FEWN CLYWED, within hearing.
LLIF, flood.	GWARTH, disgrace.
OEDD YN CROESI, that crossed.	CYMDEITHAS, society.
ADWAEN, know.	PAWB, everybody.
COFIODD, remembered.	

POSSESSIVE CASE (Meddianai).

<i>Pen y dyn</i> = the man's head.
<i>Pedol y ceffyl</i> = the horse's shoe.
<i>Drws yr ystabl</i> = the door of the stable.
<i>Coes rhaw</i> = the handle of a shovel.
<i>Talcen tŷ</i> = gable end.

Ufuddhewch i orchymynion eich rhieni. Y mae gwraig y gweinidog yn y tŷ. Y mae ewythr y plentyn mud a byddar yn gofalu am dano. Y mae amaethwyr Cymru yn trin eu tir yn dda. Y mae bwthynwyr Ffrainc yn

trin eu gerddi yn dda. Gwariodd ŵyr y weddw hon lawer o arian. Y mae'r gwynt wedi dryllio drws y tŷ. Y mae blaenor y bobl yng ngharchar. Y mae cerbyd y brenin yn sefyll yn agos i'r bont. Y mae gwas yr offeiriad yn aredig yn y cae. Y mae'r forwyn wedi tori cryd y baban. Nid rheol ddrwg oedd rheol bywyd Morgan Lloyd.

GEIRFA. (Vocabulary).

UFUDDHEWCH, obey.	BWTHYNWYR, cottagers.
GORCHYMYNION, commands.	GWARIODD, spent.
EHIENI, parents.	WYR, grandson.
GWRAIG Y GWEINIDOG, the minister's wife.	DEYLLIO, break.
EWYTHR, uncle.	CARCHAR, prison.
MUD A BYDDAR, deaf and dumb.	CERBYD Y BRENIN, the king's carriage
GOPALU AM DANO, takes care of him.	GWAS YR OFFEIRIAD, the clergyman's servant.
AMAETHWYR CYMRU, farmers of Wales.	RHEOL BYWYD MORGAN LLOYD, Morgan Lloyd's rule of life.
TRIN, cultivate.	

EXERCISE.—Form Sentences from:—mynwent (*churchyard*); angladd (*funeral*); claddu (*bury*); eglwys (*church*); clochdy (*steeple*); canu y gloch (*ring the bell*); casgliad (*collection*); dagrau (*tears*); careg fedd (*tombstone*); pregethwr (*preacher*); eisteddleoedd (*seats*); allor (*altar*); gwenwisg (*surplice*).

DEGREES OF COMPARISON (Graddau Cymharol).

There are four Degrees of Comparison in Welsh:—Positive (*Cysefin*); Equal (*Cydradd*); Comparative (*Uwchradd*); Superlative (*Uchafdradd*).

The *Positive* is the Adjective in its simple form (*ffurf syml*); as, gwyn (*white*); melus (*sweet*).

From the *POSITIVE* is formed (*ffurfir*):—

I.—The *Equal*—(1) By adding *ed*, with or without *can*, *cyn*; as, gwyn—ed (*as white*), or can wyned, cyn wyned. (2) By prefixing (*blaenddodi*) *mor*; as, mor wyn, mor weddaidd.


(In South Wales “*mor wyned*” is used oftener than “*can wyned*,” but “*can wyned*” is preferable.)

II.—The *Comparative*—(1) By adding *ach*; as, gwynach (*whiter*). (2) By prefixing *mwy*; as mwy gwyn.

III.—The *Superlative*—(1) By adding *af*; as, gwynaf (*whitest*). (2) By prefixing *mwyaf*; as, mwyaf gwyn.

When the Adjectives end in *g*, *b*, *d*, these letters are changed to *e*, *p*, *t*.

<i>Positive.</i>	<i>Equal.</i>	<i>Comparative.</i>	<i>Superlative.</i>
teg (<i>fine, fair</i>),	teced,	tecach,	tecaf.
gwlyb (<i>wet</i>),	gwlyped,	gwlypach,	gwlypaf.
rhaf (<i>cheap</i>),	rhated,	rhatach,	rhataf.



CASTELL HARLECH. (HARLECH CASTLE)

By permission of the Proprietors of the *Gossiping Guide to Wales.*
From a Photograph by Carl Norman & Co., Tunbridge Wells

These are compared irregularly (*cymherir yn afreolaidd*) :—

<i>Positive.</i>	<i>Equal.</i>	<i>Comparative.</i>	<i>Superlative.</i>
da (<i>good</i>),	cystal (<i>as good</i>),	gwell (<i>better</i>),	goreu (<i>best</i>).
drwg (<i>bad</i>),	cynddrwg, } dryced, } gwaethed, } } (<i>as bad</i>),	gwaeth (<i>worse</i>),	gwaethaf (<i>worst</i>).
agos (<i>near</i>),	nesed,	nes.	nesaf.
bach (<i>little</i>),	lleied,	llai (<i>less</i>),	lleiaf (<i>least</i>).
mawr (<i>great</i>),	cymaint,	mwy,	mwyaf.
hawdd (<i>easy</i>),	hawsed, } hawdded, }	haws, } hawddach, }	hawsaf, } hawddaf. }
buan (<i>quick</i>),	cynted,	cynt,	cyntaf.
hir (<i>long</i>),	cyhyd, } hired, (S. W.) }	hwy, } hirach, }	hwyaf, } hiraaf. }
hen (<i>old</i>),	hened, } hyned, }	henach, } hŷn, } hŷnach, }	henaf, } hynaf. }
ieuanc, } (<i>young</i>), ifanc, }	ieuenged, ifanced,	iau.	ieuaf.
llydan (<i>wide</i>),	lleted,	ifancach,	ifancaf.
llawer (<i>many</i>),	cymaint, } cynifer, }	lletach, mwy (<i>more</i>),	lletaf. mwyaf (<i>most</i>).

Beth sydd felusach na'r mêl? Y mae ef (*it*) can felused a'r mêl. Dewch yn nes at y tân. Nid ydyw eich chwaer cynddrwg a chwi. Yr ydych chi yn fach; y mae eich cyfaill yn llai; ond hwn ydyw y lleiaf. Yr wyf fi yn dda; y mae Ioan yn well; ond Dafydd yw y goreu. Mae mynyddau Cymru yn uchel, ond y mae mynyddau Ucheldiroedd Ysgotland yn uwch. Y mae eich brawd yn iau na chwi, onid ydyw? Pa un o'r ddau lyfr yma yw'r goreu? Llewelyn yw'r hynaf o'r ddau. Y mae genyf lyfr côch, a llyfr glâs; ond y llyfr côch ydyw y goreu. Po fwyaf a ddarllenwch, mwyaf fyddwch yn wybod.

NOTE :—When two objects are spoken of, we use the Superlative in Welsh, and the Comparative in English; as :—

Efe yw'r HYNAF o'r ddau = He is the ELDER of the two.

Efe yw'r GOREU o'r ddau = He is the BETTER of the two.

GEIRFA (Vocabulary).

MEL, honey.

UCHELDIROEDD YSGOTLAND, High-lands of Scotland.

ONID YDYW? Is he not?

PA UN? which?

PO FWYAF, the more.

ADVERBS (Rhagferfau).

Adverbs are formed from Adjectives by putting *yn* before them, thus :—

Da (good), Adj.;

Yn dda (well), Adv.

Gofalus (careful), Adj.;

Yn ofalus (carefully), Adv.

Deur (brave), Adj.;

Yn ddEur (bravely), Adv.

They are divided according to structure :—

(1) SIMPLE ; as, *yma, heddyw, allan, ddoe, ymaith, yfory, weithian.*

(2) COMPOUND ; as, *i fyny, oddi allan, yn awr, ar wahan.*

Adverbs are divided also according to their *usage*. This classification is similar to that of English Adverbs ; but *Adverbs of Showing* are peculiar to Welsh. They are *dyma* (here is) ; *dyna* (there is) ; *dacw* (yonder is) ; *wele* (behold).

ADJECTIVES AND ADVERBS (ANSODDEIRIAU A RHAGFERFAU).

Yr ydych yn dda. Yr ydych yn darllen yn dda. Y mae Dafydd yn ofalus. Y mae Dafydd yn gwylied yn ofalus. Y mae eich cyfaill yn esgeulus. Y mae eich cyfaill yn edrych yn esgeulus drwy y ffenestr. Y mae'r milwr yn ddewr. Y mae'r milwr yn ymladd yn ddewr. Y mae Mari yn onest. Y mae Mari yn byw yn onest. Yr oedd nhad yn gweithio yn galed. Yr oedd y meist'r yn greulawn. Ymddygodd y meist'r yn greulawn at ei was. Y mae'r teulu yn ddedwydd. Y mae'r teulu yn byw yn ddedwydd. Y mae'r gwreiddiau yn chwerv. Y mae'r plant yn wylo yn chwerv. Y mae ef yn alluog i wneyd ei waith. Y mae'r traethawd wedi ei ysgrifennu yn alluog.

EXERCISE.—Write in English: Tŷ melyn, porfa lās, daŷ gwyrddion, geneth lwyd, brethyn llwyd, dyn iach, meddwl iach, boneddwr cyfoethog, bachgen boch-goch, milwr dewr, tir ffrwythlawn, dynes garedig, baich trwm, pwysau ysgafn, boreu rhewlyd, noswaith oleu, boreu tywyll, awyr gymylog, llawer o ddŵr, llawer o ddynion, llawer o ofid, lle poblog, dyn poblogaidd, dyn mawr (o gorph), dyn mawr (enwog), ceffyl coch, ceffyl gwineu (gowineu), buwch goch, teulu tawel, boreu tawel, ci gwyn mawr, hen foneddwr enwog, hen dŷ tŷ gwellt, hen wraig dlawd, dyn marw, cig marw, cymaint o flynyddau, cymaint o laeth.

GEIRFA (Vocabulary).

DA (<i>Adj.</i>), good.	AT EI WAS, towards his servant.
DA (<i>Adv.</i>), well.	CREULAWN, cruel.
GOFALUS, careful.	YN GREULAWN (<i>Adv.</i>), cruelly.
YN OFALUS (<i>Adv.</i>), carefully.	TEULU, family.
GWYLIED, watch.	DEDWYDD, happy.
ESGEULUS, careless.	GWREIDDIAU, roots.
YN ESGEULUS (<i>Adv.</i>), carelessly.	CHWEEW, bitter.
MILWR, soldier.	WYLO, cry, weep.
DEWR, brave.	GALLUOG, able.
YN DDEWE (<i>Adv.</i>), bravely.	YN ALLUOG (<i>Adv.</i>), ably.
YN GWEITHIO YN GALED, works hard.	TRAETHAWD, essay, theme.
YMDYGODD, behaved.	

**CONJUGATION OF THE VERB "DYSGU" IN THE
PASSIVE VOICE (Ffurf Oddefol).**

SIMPLE CONJUGATION (TREIGLIAD SYML).

PRESENT TENSE.—*I am taught, &c.*

<i>Singular.</i>	<i>Plural.</i>	<i>Singular.</i>	<i>Plural.</i>
(a) Dysgir fi.	Dysgir ni.	(b) Fe'm dysgir.	Fe'n dysgir.
Dysgir di.	Dysgir chwi.	Fe'th ddysgir,	Fe'ch dysgir.
Dysgir ef,	Dysgir hwy.	Fe'i dysgir,	Fe'u dysgir.
(c) Mi a ddysgir,		Ni a ddysgir.	
Ti a ddysgir,		Chwi a ddysgir.	
Efe a ddysgir.		Hwy a ddysgir.	

Note the difference between *Fe'i dysgir* (Sing.), and *Fe'u dysgir* (Plural)
—He is taught, and They are taught.

IMPERFECT TENSE (Habit):—*Dysgid fi, &c.*—Three forms as in Present Tense. *I was taught, or I used to be taught, &c.*

PAST TENSE:—*Dysgwyd fi, &c.*—Three forms. *I was taught, &c.*

PLUPERFECT TENSE:—*Dysgasid fi, &c.*—Three forms. *I had been taught, &c.*

FUTURE TENSE:—*Dysgir fi, &c.*—Three forms. *I shall be taught, &c.*

FUTURE PERFECT TENSE:—*Dysger fi, &c.*—Three forms. *I shall have been taught, &c.* This Tense is used in Subordinate Sentences.

PERIPHRASTIC OR COMPOUND CONJUGATION

(TREIGLIAD CYFANSAWDD).

PRESENT:— Wyf yn cael fy nysgu, Ydym yn cael ein dysgu.
Wyt yn cael dy ddysgu, Ydych yn cael eich dysgu.
Mae yn cael ei ddysgu, Ydynt yn cael eu dysgu.

PAST:—(a) Oeddwn yn cael fy nysgu, &c.

(b) Byddwn yn cael fy nysgu, &c.

PERFECT:—(a) Bum yn cael fy nysgu, &c.

(b) Wyf wedi (cael) fy nysgu, or Wyf wedi fy nysgu.

PLUPERFECT:—(a) Buaswn wedi (cael) fy nysgu, &c.

(b) Oeddwn wedi (cael) fy nysgu, &c.

(c) Byddwn wedi (cael) fy nysgu, &c.

FUTURE:—(a) Byddaf yn cael fy nysgu, &c.

(b) Caf fy nysgu, &c.

FUTURE PERFECT:—(a) Byddwyf yn cael fy nysgu, &c.

(b) Byddaf wedi (cael) fy nysgu, &c.

NOTE:—Another form of the Passive Voice may be written by using the Impersonal Form of the verb "bod" with the principal verb "Ydys yn i y nysgu."

In English the Passive Voice is formed by the different Tenses of the verb "To Be," and the Past Participle of the principal verb:—

<i>Gwerthir y celfyl</i>	=	The horse is sold.
<i>Dysgir y plant</i>	=	The children are taught.
<i>Dysgid yr eneth</i>	=	The girl was taught, or the girl used to be taught
<i>Dysgwyd fi</i>	=	I was taught. —(Habit).
<i>Feleddir y mochyn</i>	=	The pig will be killed.
<i>Y mae'r mochyn yn cael ei ladd</i>	=	The pig is killed, or is being killed.
<i>Y mae'r plentyn wedi (cael) ei ddysgu</i>	=	The child has been taught.
<i>I'r oedd y plentyn wedi (cael) ei ddysgu</i>	=	The child had been taught.

The terminations of Welsh Verbs in the Passive Voice are:—

Present— <i>ir</i> ;	Past— <i>id, yd</i> ;	Pluperfect— <i>asid</i> ;	Future— <i>ir</i> ;
			Future Perfect— <i>er</i> .

Dysgir y plant gan yr athraw. Lleddir y mochyn gan y cigydd. Gwelir y dref o ben y mynydd. Cosbir ni am anufudd-dod. Fe'ch cedwir yn ol am dori y ffenestr. Y mae'r llofrudd yn cael ei grogi ddydd Llun. Dysgwylir i'r plant fod yn brydlon yn yr Ysgol. Lleddir y gwair gan y gwas. Darllenir rhan o'r Ysgrhythyrau yn yr Ysgol bob dydd. Gwerthwyd yr oen gan y weddw dlawd, a phrynwyd ef gan fasnachwr o'r dref. Cymerwyd hi i fyny am ladrad, ac anfonwyd hi i'r carchar. Drylliwyd y cwch, a thafwyd ef i'r lan gan y tonau. Diangodd yr aderyn heb gael ei saethu. Diangodd y llwynog heb gael ei anafu. Taffwyd rhai o'r dwylaw dros y bwrdd i'r môr gan y tonau. Cafodd y bachgen ei guro. Cafodd y llythyr ei ysgrifenu yn ofalus. Cedwid ei mawr yn y buarth yn wastad. Gwelais ef yn cael ei daflu i'r dwr. Gwelodd Tom y fran yn cael ei saethu.

GEIRFA (Vocabulary).

CIGYDD, butcher.	LLADRAD, theft.
PEN Y MYNYDD, top of the mountain.	DRYLLIWDYD, was wrecked.
ANUFUDD-DOD, disobedience.	LAN, shore.
FE'CH CEDWIR, you will be kept.	TONAU, waves.
AM DORI, for breaking.	DIANGODD, escaped.
LLOFRUDD, murderer.	HEB GAEL EI SAETHU, without being shot.
DYSGWYLIR, are expected.	ANAFU, hurt; injure.
PRYDLON, punctual.	DWYLAW, crew; hands.
LLEDDIR Y GWAIR, the hay is mowed.	CURO, beat.
YSGRYTHYBAU, Scriptures.	BUARTH, yard.
RHAN, portion.	YN WASTAD, always.
MASNACHWR, merchant, tradesman.	CAEL EI DAFLU, being thrown.

Y mae'r hen ŵr duwiol wedi ei gladdu gan offeiriad (berson) y nlwyf. Y mae'r afalau wedi eu bwyta gan y plant. Y mae'r dyn wedi ei frathu

gan y neidr. Y mae'r coed wedi cael eu hysgwyd gan yr ystorm. Y mae'r cawr wedi ei ladd yn y rhyfel. Y mae'r ysgubau wedi eu rhwymo gan y medelwyr. Yr oedd y ci cynddeiriog wedi ei ladd cyn i chwi ddyfod yma. Yr oedd y llygod wedi eu dal cyn i'r gath ddyfod i fewn.

Anfonwyd i nol y meddyg cyn i'r claf farw. Dywedwyd wrthynt am redeg allan yn ddi-oed. Rhwystrwyd y plant wrth eu gwersi gan ymwelydd. Chwiliwyd y lludw, a chafwyd y fodrwy ynddo. Cydsyniwyd a'i gais. Ceir yr hanes hwn yn y llyfr glâs. Synwyd fi gan ddeall y ci. Cedwid y drws yn agored drwy y dydd. Yr oedd ganddo ddau efell, a gelwid un o honynt Taliesin.

GEIRFA (Vocabulary).

HEN WR, old gentleman, man.	CLAF, patient.
DUWIOL, godly.	DDI-OED, at once; without delay
CLADDU, bury.	RHWYSTRWYD, were prevented; disturbed.
WEDI EI GLADDU, has been buried.	WRTH, at.
OFFEIRIAD, clergyman.	YMWELYDD, visitor.
PLWYF, parish.	CHWILIWYD, were searched.
BRATHU, sting.	LLUDW, ashes.
YSGWYD, shake.	CYDSYNIWYD A'I GAIS, his request was granted.
CAWR, giant.	YR HANES HWN, this account.
RHYFEL, war.	CEIR, is found.
YSGUBAU, sheaves.	GLAS, blue.
RHWYMO, bind.	SYNWYD, astonished.
MEDELWYR, reapers.	DEALL, intelligence.
CYNDDEIRIOG, mad.	DAU EFELL, twins.
CYN I CHWI DDYFOD YMA, before you came here.	OEDD GANDDO, he had.
ANFONWYD I NOL Y MEDDYG, the doctor was sent for.	

IMPERATIVE MOOD (MODD GORCHYMYNOL).

Gochelwch gwmpeini drwg. Peidiwch myned allan yn y gwlaw heb ddim am eich pen. Diolchwch i'r boneddwr am ei garedigrwydd. Gwedd-iwn. Awn oddi yma. Gofaled Morgan am ei wningen ddôf. Byddwch yn barod am naw. Peidiwch aflonyddu ar neb. Ceisiwch wybodaeth bob amser. Lledaenwch y gwir yn mhell ac agos. Casewch dwyll a diogi. Y maent yn arwain i ddystryw. Ysgrifenwch y frawddeg yn daclus.

GEIRFA (Vocabulary).

GOHELWCH, avoid; beware of.	AFLONYDDU AR NEB, disturb anybody
CWMPAINI, company.	CEISIWCH, seek.
PEIDIWCH MYNED, don't go.	GWYBODAETH, knowledge.
HEB DDIM, without anything.	LLEDAENWCH, spread, scatter.
DIOLCHWCH, thank. (<i>Trans.</i>)	YN MHELL AC AGOS, far and near.
CAREDIGRWYDD, kindness.	CASEWCH, hate.

GWEDDIWN, let us pray.	TWYLL, deceit; deception.
AWN, let us go.	DIOGI, laziness.
GOFALD MORGAN AM, let Morgan take care of.	DYSTRYW, destruction.
CWNINGEN, rabbit.	YN DACLUS, neatly.
DOF, tame.	

EXERCISE.—Form Sentences from:—

Selog (*zealous*); gwaelod (*bottom*); mygu (*stifle*); twyllo (*deceive*); maddenant (*pardon*); brwyn (*rushes*); grug (*heath*); eithin (*furze*); rhedyn (*ferns*); llwyn (*bush*); rhaw (*shovel*); caib (*mattock*); llif (*saw*); crochan (*pot*); hagi (*whet*); gwrthod (*refuse*).

EXERCISE.—Write in English and Welsh the names of—(1) Twelve trees. (2) Twelve birds found in Wales.

INFINITIVE MOOD (MODD ANNHERFYNOL).

FORMS (*ffurfiau*):—To go; to run; to sing; to write.

REMEMBER:—*There is no Past Tense in the Infinitive Mood. We cannot say:—to wrote; to went, &c.*

After *see, hear, make, can, must*, and a few others, the sign *to* is omitted (*gadael allan*).

Digwyddodd i mi eich gweled yn y ffair. Digwyddodd i gi weled ei gysgod yn yr afon. Dylai y plant fod yn yr ysgol yn gyson. Dechreuodd yr aderyn ganu ar gangen uwch ben ei nyth. Y mae'r claf yn parhau i wella bob dydd. Gorfu i'r ffermwr ladd ei gi am ei fod yn lladd defaid. Gorfu i'r fyddin godi y gwarchae, o herwydd yr hîn oer. Gwrthododd y meistr gynorthwyo y bachgen diog. Y mae'r llanciau yn llawenhau weled y gwyliau yn dyfod. Esgeulusodd y gweithiwr ei waith, a chafodd rybudd i ymadael. Fe fethodd y gôf asio yr haiarn. Mi welais y plant yn dyfod i fewn. Gwelodd Rhys ei chwaer yn syrthio i'r afon. Clywais y daran yn rho. Gwnaeth Dafydd i mi ei ganlyn. Y mae yn rhaid i'r dyn tlawd weithio. Gallaf ddarllen Cymraeg yn rhigil. Dywedais wrtho am beidio myned. Dywedais wrth y plentyn am beidio llefain (crŵ).

GEIRFA (Vocabulary).

DIGWYDDODD I MI, I happened; chanced.	CYNORTHWYO, to help.
CYSGOD, shadow.	DIOG, lazy.
DYLAI, ought.	LLANCIAU, lads; youths.
YN GYSON, regularly.	LLAWENHAU, rejoice.
CANGEN, branch.	GWYLLIAU, holidays.
UWCH BEN, above.	ESGEULUSODD, neglected.
PARHAU, continues.	RHYBUDD I YMADAEL, notice to leave.
GWELLA, get better; recover.	ASIO, to join.
GORFU IDDO LADD, he had to kill.	YN DYFOD, come.

AM EI FOD YN LLADD, because he was killing.	YN SYRTHIO, fall. TAEAN, thunder.
CODI Y GWARCHAE, raise the siege.	RHUO, roar.
O HERWYDD, on account of.	Y MAE YN RHAID I MI, I must.
HIN, weather.	RHIGIL (rhigl), fluently.
GWETHODODD, refused.	AM BEIDIO MYNED, not to go.

PARTICIPLES (Cyfraniaid).

<i>Learning</i>	= Yn dysgu, gan ddysgu, dan ddysgu.
<i>Having learnt</i>	= Wedi dysgu, ar ol dysgu.
<i>Having been taught</i>	= Wedi cael (fy) nysgu, wedi (fy) nysgu.
<i>Without seeing</i>	= Heb weled.
<i>Before seeing</i>	= Cyn gwelod.

Aeth y ddynes i'r pentref gan adael ei phlant yn y tŷ. Aeth ymaith heb dalu am ei le. Y mae'r plant yn myned allan o'r ysgol dan neidio, a gwaeddi. Y mae'r Cadfridog yn yr India yn dysgu y brodorion sut i ymladd. Wrth glywed y ci yn cyfarth, meddyliais fod rhyw un yn dyfod at y tŷ. Pan yn myned adref o'r ysgol ddoe, gwelais fachgen drwg yn tori (tynu) nyth aderyn. Pan yn croesi gwastadedd mawr yn Neheudir Affrig, gwelais lewes o fy mlaen yn syth. Ysgrifennodd y cyfreithiwr at ei frawd yn dymuno arno ddyfod ato. Diffoddodd y plentyn y ganwyll gan feddwl ei fod yn gwneyd yr hyn oedd iawn. Fe aeth y dyn o'r wlad gan adael ei wraig a'i deulu ar ol. Torodd y dyn ei goes drwy syrthio o ben y tŷ. Aeth y weddw i'w bedd wedi tori ei chalon. Neidiodd y llygod i'r gegin, gan redeg dros yr holl dŷ, a pheri dychryn i'r plant. Safodd y gath fel pe yn ystyried beth i'w wneyd. Yn lle myned â'r llyfr i'r tŷ, fe'i dododd ar y môr. Wedi gwerthu y ceffyl, aeth y ffermwr adref. Rhedodd fy ngwas ymaith wedi ei ddychrynu bron hyd farw.

GEIRFA (Vocabulary).

GAN ADAEL, leaving.	DIFFODDODD, put out; extinguished.
HEB DALU AM EI LE, without paying for his lodgings.	CANWYLL, candle.
DAN NEIDIO, jumping.	TEULU, family.
GWAEDDI, shouting.	TORODD, broke.
CADFRIDOG, General.	PEN Y TY, roof of the house.
BRODORION, natives.	GWEDDW, widow.
WETH GLYWED, hearing; whilst hearing.	WEDI TORI EI CHALON, having broken her heart.
CYFARTH, bark.	EGIN, kitchen.
PAN YN MYNED, whilst going.	YR HOLL DY, the whole house.
TYNU NYTH ADERYN, robbing a bird's nest.	PERI DYCHRYN, frightening.
GWASTADEDD, plain.	FEL PE YN YSTYRIED, as if thinking.
DEHEUDIR AFFRIG, South Africa.	MYNED A, take.
LLEWES, lioness.	DODODD, put; placed.
O FY MLAEN YN SYTH, right before me.	WEDI EI DDYCHRYNU, frightened.
CYFREITHIWR, solicitor; lawyer.	MARW, death.
YN DYMUNO ARNO, begging of him.	

SEQUENCE OF TENSES (Dilyniad Amserau), &c.

Y mae'r ysgolheigion yn meddwl *ei bod* yn bryd myned allan. Yr oedd yr ysgolheigion yn meddwl *ei bod* yn bryd myned allan. Y mae'r llythyr yn dweyd *fod* eich brawd *yn* iach. Yr oedd y llythyr yn dweyd *fod* eich brawd *yn* iach. Gwaeddodd y foneddiges o fwrdd y llong y *rhoddai* lawer o arian i unrhyw un a *achubai* ei bywyd. Dywedodd yr hen ŵr wrth ei fab ei *fod yn gobeithio y byddai* iddo gofio am danynt gartref. Hysbysodd y gweinidog y gynulleidfa *ei fod yn ymadael*. Yr wyf yn falch i chwi *ddyfod*. Y mae Ioan yn dymuno eich hysbysu *ei fod yn* iach. Yr oedd Ioan yn dymuno eich hysbysu *ei fod yn* iach. Mi feddyliais y buaswn yn boddi cyn cyrhaedd y lân. Pan yn ieuanc, byddwn yn cerdded saith milldir bob dydd. Byddai y ci yn dyfod i nol ei giniaw gyda'r tlodion. Ar hin oer, byddai y gath yn eistedd o flaen y tân. Fe ddywedodd y forwyn y byddai hi yma yn mis Mai. Y mae nhad yn dweyd wrthyf y caf swllt am fod gartref. Dywedodd fy nhad wrthyf y cawn swllt am fod gartref. Byddai yn dda genyf eich gweled. Byddai yn dda i chwi ddarllen hanes Cymru. Byddai yn well i chwi fyned gartref. Byddai fy nhaid (nhad-gu) yn myned i'w wely bob nos am ddeg. Pan fyddai wedi bwyta y cyfan, arferwn roddi rhagor o fwyd iddi. Dranoeth y byddai y llanc yn rhwymo (gafra) ŷd yn y maes.

GEIRFA (Vocabulary).

EI BOD YN BRYD, that it is time. (Pres.).	Y BUASWN YN BODDI, I would drown.
BWRDD Y LLONG, board of the ship.	CYN CYRHAEDD, before reaching.
Y RHODDAI, that she would give.	BYDDWN YN CERDDED, I used to walk
ACHUB, save.	BYDDAI Y CI YN DYFOD, the dog used to come; would come.
GOBEITHIO, hope.	TLODION, paupers.
Y BYDDAI IDDO GOFIO, that he would remember.	I HOL (NOL), to fetch.
TRANOETH, next day; the following day.	BYDDAI YN DDA GENYF, I should be glad.
Y BYDDAI YN RHWYMO, would be binding.	BYDDAI YN DDA I CHWI, it would be well for you.
CYNULLEIDFA, congregation.	HANES CYMRU, history of Wales.
I CHWI DDYFOD, you have come.	BYDDAI YN MYNED, he used to go.
DYMUNO, wishes.	I'W WELY, to his bed.
ARFERWN, I used.	FYDDAI WEDI BWYTA Y CYFAN, had eaten all.

DIRECT AND INDIRECT QUESTIONS (Gofyniadau Cyfeiriadol ac Anghyfeiriadol).

Direct Question :—What are you doing?

Indirect Question :—Tell me what you are doing.

NOTE.—In direct questions the Nominative comes after the Verb; in indirect questions the Nominative comes before the Verb.

A welsoc'h chwi fy mrawd? A fuoch chwi erioed yn Llundain? A laddasoc'h (laddsoch) chwi y wenci? Beth sydd arnoch chwi? (Beth yw'r mater sydd arnoch?) A fedrwech chwi siglo'r cryd yma? Ydych chwi yn clywed arogl ('oglau) rhywbeth? Onid oes llyfr ar y bwrdd? Onid oes dau lyfr yn yr ystafell hon? Pwy ydyw y dyn doethaf? A oes arnoch chwi arian i mi? A dalsoch chwi eich dyled? B'le mae eich brawd yn byw yn awr? Sut yr ydych chwi? Pwy ydyw y lleidr? Yr oedd yr esgid yn dangos pwy oedd y lleidr. Yr oedd y ci bach yn dangos pwy oedd ei feistr. Nis gwn pwy yw ef. Nis gwyddwn pwy oedd ef. Gofynodd i mi pwy oedd y dyn. Ni ddywedais pwy oedd y bachgen bach. Dywedwch wrtho b'le mae eich brawd. Gofynwyd i'r breinin pwy oedd ei gyng-horwr. Gofynodd y forwyn i'w meist'r am beth oedd yn chwilio. Yr oeddwn yn awyddus i glywed sut yr oeddech.

EXERCISE.—Make Sentences from :—Golwg (*sight*); dilynol (*following*); nerth (*strength*); ysgafn (*light*,—*Adj.*); goleu (*light*,—*Noun*); hysbysu (*informs*); caethwas (*slave*); cyfle (*chance*); hyfryd (*pleasant*); esgeulus (*careless*); careg hogi (*whet-stone*); penlinio (*kneels*); dysgedig (*learned*); cneifio (*sheer*); cnaf, enu (*fleece*).

GEIRFA (Vocabulary).

WENCI, weasel.	DYLED, debt.
BETH SYDD ARNOCH CHWI? What is the matter with you.	PWY OEDD Y LLEIDR, who the thief was.
SIGLO'R CRYD, rock the cradle.	NIS GWN, I do'n't know.
CLYWED AROGL, smell.	CYNGHORWR, adviser.
YSTAFELL, room.	AM BETH OEDD YN CHWILIO, what he was looking for.
DOETHAF, wisest.	AWYDDUS, anxious.
A OES ARNOCH, do you owe?	

NEGATIVE SENTENCES (Brawddegau Negyddol).

Nid yw y ceffyl yn hoffi gwellt. Nid yw y bachgen yn dyfod a'i lyfr i'r ysgol bob dydd. Nid yw Mari yn myned a'i llyfr gartref bob nos. Ni welais i mo hono. Dywedwyd wrthyf am beidio d'od yn ol yr un ffordd. Dywedais wrthi am beidio myned o fy mlaen i'r dref. Ni ddaeth y pregethwr yma ddoe. Fe ddywedodd y meist'r wrth y gwas am beidio dychwelyd cyn nos. Ni syrthiodd yr un o honynt i'r afon. Ni welwyd yr un o honynt byth wedi hyny. Ni fum erioed yn Sir Benfro. Ni fu neb

yma o'ch blaen chwi. Ni ddywedodd wrthyf am aros yn ol. Ni fedr dyllhuan ganu. Nid oedd neb gartref pan alwais. Nid yw yn ddichonadwy myned oddi yma. Aeth allan heb orphen ei waith. Ni ddysgodd y bechgyn eu gwersi yn dda. Nid oedd ganddo na thad na mam. Nid oedd ganddi na thaid na nain. Ni fedrai ddarllen na sillebu. Gan nad oedd yn dyfod, anfonwyd y ei i chwilio am dano. Nid oes arnaf eisiau dim heddyw. Ni welais neb yn y tŷ. Ni ddaeth yr un o honynt yma. Nid oedd yr un o'r defaid i'w gweled.

GEIRFA (Vocabulary).

NID YW YN HOFFI, does not like.	NI FEDR, cannot.
GWELLT, straw.	DYLLHUAN, owl.
NID YW YN DYFOD A'I LYFR, does not bring his book.	DICHONADWY, possible.
NI WELAIS MO HONO, I did not see him.	HEB ORPHEN, without finishing.
AM BEIDIO D'OD, not to come.	NID OEDD GANDDO NA, he had neither.
PREGETHWI, preacher.	NI FEDRAI, he could not.
DYCHWELYD, return.	SILLEBU, spell.
NI AETH YR UN O HONYNT, none of them went.	GAN, as.
BYTH WEDI HYNY, ever after that.	ANFONWYD, was sent.
NI FUM ERIOD, I have never been.	NID OES ARNAF EISIAU DIM, I want nothing; I do not want anything.
SIR BENFRO, Pembrokeshire.	NI WELAIS NEB, I saw nobody; I did not see anybody.
NI FU NEB, nobody was.	I'W GWELED, to be seen.

PREPOSITIONS (Arddodiaid).

There are three classes of Prepositions in Welsh, viz. :—

(1) *Simple*,—as, *mewn*. (2) *Compound*,—as, *er mwyn, tuag at, &c.* (3) *Pro-nominal*,—as, *arno, hebdi, drostynt*.

Simple Prepositions consist of ONE word, and are arranged into :—

- Those governing the RADICAL sound,—as, *cyn* (before); *erbyn* (against); *wedi, gwedi* (after); *rhwng* (between); *mewn* (in); *is* (below); *ger, gerfydd* (by); *wuch* (above); *cyn dydd; wedi nos*.
- Those governing the MIDDLE sound,—as, *ar* (on, upon); *heb* (without); *trwy* (through); *tros, dros* (over); *tan, dan* (under); *gan* (with, by); *wrth* (by, close to); as, *ar fyned, heb dalu, trwy ganu*.
- That governing the NASAL sound, viz. :—*yn*, as, *yn nydd trallod*.
- Those governing the ASPIRATE sound,—as *a, ág* (with); *gyda* (with); *tua* (towards); as, *a chyllell, gyda phoen, tua thre*.

EXERCISE.—Write Sentences with :—Against, towards, from, over, into, under, between, of, before, at, about, through.

Compound Prepositions consist of TWO or MORE words. They govern the same sound as the last word in which they end.

- (a) Those ending in a Preposition,—as, *oddi ar* (from); *yn erbyn* (against); *tuag at* (towards); *tu allan* (outside); *tu cefn i* (behind); *cyferbyn a* (opposite to); *o fewn* (within); *tu hont i* (beyond), &c.
- (b) Those ending in a Noun,—as, *ar hyd* (along); *er mwyn* (for the sake of); *ger bron* (in the presence of); *yn lle* (instead of); *oblegid* (on account of); *o flaen* (before); *woch ben* (above); *heb law* (besides); *o herwydd* (on account of); *islaw* (below), &c.

Pronominal Prepositions consist of a Preposition joined to a Pronoun. They are:—

- (a) Those ending in “*af*,”—as, *ataf* (to me); *arnaf* (upon me); *tanaf* or *danaf* (under me); *am danaf* (about me), &c.
- (b) Those ending in “*of*,” as, *hebof* (without me); *rhyngof* (between me); *ynof* (in me); *trosof* (for me); *trwyof* or *trwof* (through me), &c.
- (c) Those ending in “*yf*,”—as, *genyf* (with me); *oddiwrthyf* (from me), &c.
- (d) That ending in “*mi*,”—as, *imi* (to me).

TRANSLATE.—Fe daflodd y plentyn gareg trwy y ffenestr. Fe syrthiodd y dyn i'r afon islaw y bont. Y mae Dafydd yn tori bara â chylllell. Fe gydiodd y llwynog yn yr wydd gerfydd ei gwddf. Lladdwyd y defaid gan y cŵn. Fe fethodd y plentyn ddyfod i'r Ysgol o herwydd afiechyd. A wnewch chwi hyn yn fy lle? Y mae'r ceffylau yn rhedeg tua'r afon. Daeth y boneddwr ataf, ac aeth ymaith hebof fi. Y mae'r offeiriad yn byw gyferbyn a'r eglwys.

Y mae llawer cartref dedwydd rhwng mynyddau Cymru. Fe laddwyd y ci â dryll (gŵn) gan y bugail.

GEIRFA (Vocabulary).

AFIECHYD, illness.

A WNEWCH? Will you do?

YN FY LLE, instead of me.

LLAWER CARTREF DEDWYDD, many a happy home.

IDIOMS (Ieithwedd).

Y mae'r gweithiwr yn myned at ei waith *gyda'r dydd*. Yr ydys yn stopio gweithio *ganol dydd*. Yr oeddech yn yr ysgol *ddoe*, ond nid oeddech yma *echdoe*. Mi fyddaf gyda chwi *drenydd*. Yr oeddwn yn Abertawe *bythefnos i heddyw*, a byddaf yn Caerdydd *wythnos i yfory*. Yr oedd llawer o ddyeithriaid yn y drefar ddydd y ffair, ond *tranoeth* yr oeddynt wedi ymadael. Cedwir Nadolig yn *ddydd gwyl*. Rhaid i ni oll ymddangos yn *nydd y farn*. Yr wyf yn gweled fy ngheinder *bob yn ail ddydd*. Mae'r eneth yn canu *trwy gydol y*

dydd. *Ar y dydd penodedig,* daw'r arholwr i'r ysgol i arholi y plant. *Y mae'r coedwr yn gweithio wrth y dydd.* *Mi gollais hur diwrnod ddydd Sadwrn.* *Byddaf yn myned i Loegr calan Mai nesaf.* *Y mae'r plant yn hiraethu am ddydd Calan.* *Yr wyf yn hoffi gweled llygad y dydd yn y gwanwyn.*

GEIRFA (Vocabulary).

GYDA'R DYDD, at day-break.	BOB YN AIL DYDD, every other day.
YR YDYS YN STOPIO, we stop.	TRWY GYDOL Y DYDD, the whole day long.
GANOL DYDD, mid-day.	AR Y DYDD PENODEDIG, on the appointed day.
DDOE, yesterday.	ARHOLWR, examiner; inspector.
ECHDOE, the day before yesterday.	ARHOLI, examine.
DRENYDD, the day after to-morrow.	WRTH Y DYDD, by the day.
ABERTAWE, Swansea.	HUR DIWRNOD, a day's wages.
BYTHEFNOS I HEDDYW, a fortnight to-day.	LLOEGR, England.
CAERDYDD, Cardiff.	CALAN MAI, the first of May.
WYTHNOS I YFORY, to-morrow week.	HIRAETHU, long. (<i>Terb.</i>)
TRANOETH, the following day; next day.	DYDD CALAN, New Year's day.
NADOLIG, Christmas.	[CALENIG, New Year's gift.]
YN DDYDD GWYL, as a holiday.	LLYGAD Y DYDD, daisy.
DYDD Y FARN, the day of judgment.	

IDIOMS (IEITHWEDD).

Y mae genyf fuwch gôch. *Y mae genyf fochyn tew.* *Y mae ganddo ddigon o arian i dalu am y llyfr.* *Y mae ganddi lais da.* *Y mae ganddynt lawer o ddefaid ar y bryniau.* *Yr oedd genyf gath wen.* *Yr oedd genyf gi defaid.* *Yr oedd ganddo lawer o berthynasau.* *Yr oedd ganddo deimladau da at ei gyd-ddyn.* *Y mae gyda fi ddau lyfr yn fy llogell.* *Y mae yn dda genyf eich gweled.* *Yr oedd yn dda ganddo glywed fod ei fam yn iach.* *Y mae ofn arnaf ar hyd nos.* *Y mae yn ddrwg genyf fy mod wedi achosi cymaint o ofid i chwi.* *Y mae arnaf eisiau eich gweled cyn yr ewch allan.* *Y mae arnaf eisiau bwyd.* *Y mae arno eisiau dŵr.* *Y mae yn ddyledswydd arnaf i'ch helpu.* *Y mae yn ddyledswydd ar y plant i ufuddhau i'w rhieni.* *Y mae arnaf bunt i chwi.* *Y mae ar fy mrawd goron i mi.* *Y mae chwant arnaf ddyfod gyda chwi.* *Y mae chwant bwyd arnaf.* *Y mae'r ddanodd arno.* *Y mae syched arnaf.* *Y mae yn edifar genyf.* *Y mae hiraeth ar y ferch ar ol ei niham.*

GEIRFA (Vocabulary).

Y MAE GENYF, I have.	Y MAE GYDA FI, I have.
Y MAE GANDDO, he has.	CYD-DDYN, fellow man.
Y MAE GANDDI, she has.	Y MAE YN DDA GENYF, I am glad.
Y MAE GANDDYNT, they have.	Y MAE OFN ARNAF, I am afraid; I fear.

YR OEDD GENYF, I had.	Y MAE YN DDRWG GENYF, I am sorry.
YR OEDD GANDDO, he had.	CYMAINT O OFID, so much trouble.
PERTHYNASAU, relatives.	Y MAE ARNAF EISIAU, I want.
TEIMLADAU, feelings.	
Y MAE YN DDYLEDSWYDD ARNAF, It is my duty.	
Y MAE YN DDYLEDSWYDD AR Y PLANT, It is the children's duty.	
Y MAE ARNAF, I owe.	
Y MAE AR FY MRAWD, My brother owes.	
Y MAE CHWANT ARNAF DDYFOD, I am inclined to come; I have a mind to come.	
Y MAE CHWANT BWYD ARNAF, I want food.	
Y MAE'R DDANODD ARNAF, I have the toothache.	
Y MAE SYCHED ARNAF, I am thirsty.	
Y MAE YN EDIFAR GENYF, I am sorry; I regret.	
Y MAE HIRAETH ARNAF, I long.	

IDIOMS (IEITHWEDD).

Ni fynai'r ei fy nilyn i'r mynydd. Ni fynai Dafydd fyned i'r ysgol. Mynodd Ellis fy nghanlyn. Mynodd y plentyn fyned ar glin ei dad. Cododd y gwas am chwech heddyw. Cododd y plentyn y llyfr. Parhau i ddarllen oedd Sidney. Mab i amaethwr tlawd yw y Prif-athraw. Cyfaill ydyw yr Iesu i bawb. Dealodd y bobl ar unwaith mai nid dyn cyffredin oedd yn eu hanerch. Pan oedd y plant yn myned allan, dyma nhwy yn dechreu chwerthin y naill ar ol y llall, wrth weled yr asyn a'i drwyn yn y drws. Gwelais mai nid Jane oedd wedi tori y ffenestr. Ni allaf dori y bara a'r gyllell hon. Torais fy mŷs â'r siswrn. Torodd Llewelyn ei goes. Torwch eich enw y fan yma. Bum bron tori fy nghalon ar ol fy nghyfaill. Y mae Gwen wedi tori ei llyfr newydd. Mi eis i Aberdare yn un swydd i'ch gwled. Ni wnaeth yr un swydd heddyw. Safodd y cardotyn wrth y drws. Y mae y plant wrth eu gwaith. Y mae'r medelwyr yn brysur wrth yr ŷd. Dewch gyda mi Fangor. Yr wyf yn myned gyda'r trên. Galwch gyda modryb Sian wrth ddychwelyd.

GEIRFA (Vocabulary).

NI FYNAI'R EI FY NILYN	= would not follow me.
MYNODD ELLIS, Ellis insisted on.	
GLIN, knee.	
CODODD AM CHWECH, rose at six.	
CODODD Y LLYFR, raised, lifted	
PARHAU I DDARLLEN,	= Sidney continued
MAB I AMAETHWR,	= The Principal is
CYFAILL YDYW YR IESU, Jesus is	
MAI NID DYN CYFFREDIN OEDD	= that it was not an ordinary man that
ANERCH, address.	
DYMA Y PLANT YN DECHREU	= the children began to
WRTH WELED, at the sight of; when they saw.	
MAI NID JANE OEDD	= that it was not Jane that had broken
TORI Y BARA, = cut	
TORI FY MYS = cut	scissors.
TORODD EI GOES = broke	

TORI ENW . . . = write . . .
 BUM BRON TORI FY NGHALON = I nearly broke . . .
 TORI LLYFR, tear.
 EIS, I went.
 YN UN SWYDD, purposely; on purpose.
 NI WNAETH YE UN SWYDD, he did nothing.
 WRTH Y DEWS, by the door.
 WRTH EU GWAITH, at their work.
 MEDELWYR, reapers.
 WRTH YR YD, at the corn.
 GYDA'R TREN, by train.
 GYDA MODRYB SIAN, at aunt Jane's (house).

IDIOMS (IEITHWEDD).

Peidiwch cadw sŵn. Yr wyf yn erfyn arnoch am beidio cadw sŵn. Yr wyf wedi cael anwyd. Yr wyf wedi cael fy nghuro. Yr wyf yn cael y ddanodd bob gwanwyn. Yr wyf am gael dau bwys o sebon. Yr wyf am gael eich gweled. Y mae'r dyn dyeithr am gael lletya yn ein tŷ ni dros y nos. Cafodd eich chwaer dri o wyau yn y nyth. Cafodd Dafydd ei rybuddio i beidio cadw sŵn mwyach. Caf weled. Caf glywed oddi-wrthych etto. Yr wyf yn gobeithio y caf y wobr gyntaf. Aeth yr areithiwr ffwrdd heb ddweyd yr un gair. Deallodd yr athraw fod y plant heb ddysgu eu gwersi. Dewch yn nes at y tân. Fe ganodd y cerddor mor dda, nes yr oedd pawb yn synu. Arosch nes y byddwch ddwy fwydd yn henach. Rhedodd y llwynog yn mlaen ar ei gyfer. Nid yw ef cystal a'i air. Ni fedraf ddarllen cystal a chwi. Ni fedr ef ysgrifenu cystal a fi. Nid yw yr ysgolor yn darllen wrth fodd ei feistr. O'r diwedd cafodd yr hen ffermwr was wrth ei fodd yn y ffair. Y mae yn well genyf gi na chath.

GEIRFA (Vocabulary).

PEIDIWCH CADW SWN, don't make a noise.	HEB DDWEYD, without saying.
YE WYF YN ERFYN ARNOCH, I beg of you.	FOD Y PLANT HEB DDYSGU = . . . had not learnt.
WEDI CAEL ANWYD, have had a cold.	YN NES, nearer.
WEDI CAEL FY NGHURO, have been punished.	CERDDOR, musician.
YR WYF YN CAEL, I get; have.	NES YR OEDD PAWB YN SYNU = so that . . .
YR WYF AM GAEL, I want to have.	AROSWCH NES, wait until.
YR WYF AM GAEL EICH GWELED, I want to see you.	YN MLAEN AR EI GYFER, straight on.
DYN DYEITHR, stranger.	CYSTAL A'I AIR = as good as . . .
AM GAEL LLETYA, wants to lodge.	CYSTAL A CHWI = as well as . . .
CAFODD DRI O WYAU = had . .	WRTH FODD EI FEISTR = to please . .
CAFODD EIRYBUDDIO, was warn- ed, cautioned.	Y MAE YN WELL GENYF = I prefer . . . to.
CAF WELED, I shall see.	Thus:—I prefer summer to winter; I prefer this horse to that. Never say "than" after prefer.
Y CAF Y WOBR GYNTAF = I shall have . . .	

IDIOMS (IEITHWEDD).

Y mae'r plant yn dysgu eu gwersi. Y mae'r athraw yn dysgu ei ddosbarth. Y mae'r fuwch wedi trigo. Yr wyf bron a thrigo (sythu). "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni." Mi wnaif hyn i chwi er mwyn eich tad. Daethum i'r dref er mwyn eich gweled. Oni bai fy mod yn sal mi fuaswn gyda chwi. Y mae bai arnoch am guro eich ceffyl. Am danom ni, druain, nid oes dim i ddysgwyl ond caledi. Yr wyf yn leicio lladd gwair, ond ni fedraf ladd mawn. Y mae'r cigydd yn lladd y tarw. Peidiwch lladd ar y dyn. Y mae Arthur wedi cael anwes (rhaff). Y mae deilen ar ei dafod. (S.W.—Y mae tafod tew ganddo). Y mae bwlch yn ei wefus. Y mae llygaid tro ganddo. (N.W.—Mae o yn edrych yn groes). Chwarddodd Rhys am fy mhen. Chwarddais am ben Dafydd. Yr oedd y crydd yn sefyll ar ben y drws, ond yr oedd ei wraig yn sefyll ar ei phen ei hun. Cefais geiniog am fod yn fachgen da. Cefais fy nghuro am fod yn ddrwg. Digiodd y meistwr wrth y gwas gymaint fel yr anfonodd ef ymaith o'i wasanaeth. Trowch eich tē.

GEIRFA (Vocabulary).

DYSGU EU GWERSI, learn.	LLADD Y TARW, kill . . .
YR oedd Syr Isaac Newton bron mor enwog am ei dymer dda ag oedd am ei allu fel athronydd. Un tro, galwodd y forwyn arno at gyfaill oedd yn sefyll tu allan, ac ni bu yn absenol o'r ystafell ond ychydig fynyddau. Ond cyn gynted ag y dychwelodd i'w ystafell, canfyddodd fod ei hoff gi, Diamond, wedi dymchwelyd y bwrdd, ac wedi dystyrywio a llosgi y papyrau gwerthfawr oedd arno. Yr oedd y papyrau

yma wedi cymeryd iddo flynyddoedd lawer o fyfyrion caled i'w cyfansoddi. Yr oedd yn ofidus iawn, ac ni wnai dim ei gysuro. Gan ei fod yn hen ŵr, nis gallasai ail gynyrchu y gwaith; ond yn lle cosbi ei gyfaill bychan, dywedodd yn bruddaidd, "O, Diamond! Diamond!! ychydig a wyddost y drwg a wnaethost i mi."

GEIRFA (Vocabulary).

AMYNEDD, patience.

BRON, almost; nearly.

MOE ENWOG, as famous.

TYMER, temper.

AG OEDD, as he was.

GALLU, skill; ability.

FEL ATHRONYDD, as a philosopher.

UN TRO, once.

GALWODD, called.

MORWYN, servant girl.

OEDD, who (that) was.

SEFYLL, waiting; standing.

TU ALLAN, outside.

NI BU YN ABSENOL OND, he was absent only.

CYN GYNTED AG, as soon as.

YSTAFELL, room.

CANFYDDODD, he found.

HOFF, favourite.

FOD Y CI WEDI DYMCHWELYD . . .
had overturned; upset.

WEDI DYSTRYWIO, had destroyed.

A LLOSGI, and burnt.

GWERTHFAWE, valuable.

OEDD WEDI CYMERYD IDDO, had taken him.

MYFYRIO CALED, hard study.

I'W CYFANSODDI, to write; compose.

GOFIDUS IAWN, much vexed; very sorrowful.

NI WNAI DIM, nothing would.

CYSURO, console; make him happy.

GAN EI FOD, as he was.

AIL GYNRYCHU, re-produce; write again.

YN LLE, instead of.

COSBI, punishing.

PRUDDAIDD, sadly; sorrowfully.

YCHYDIG A WYDDOST, little do you know.

DRWG, mischief.

WNAETHOST, you have done.

12.—Y Fam newydd.

YR oedd gŵr gweddw yn byw mewn tref fechan yn Sir Drefaldwyn. Penderfynodd briodi eilwaith, a'r tro yma syrthiodd ei serch ar foneddiges gyfoethog oddeutu haner cant oed oedd yn byw ychydig filldiroedd o'r gymydoggaeth lle yr oedd ef yn byw. Oddeutu wythnos cyn y briodas dywedodd

y tad wrth ei blant ei fod ar fedr dyfod a mam newydd iddynt. Daeth dydd y wledd, a gwahoddwyd amryw gyfeillion i'r tŷ ar yr achlysur. Pan ddychwelodd y pâr ieuainc o'r briodas, dygodd y gŵr ei wraig i sylw y plant, a dywedodd, "Fy mhlant anwyl, cusanwch y foneddiges hon, hi ydyw y fam newydd a addawais i chwi." Wedi edrych yn fanwl ar y fam newydd, dywedodd Charlie bach, "Nhad! yr ydych wedi cael eich twyllo. Nid ydyw yn *newydd* o gwbl."

GEIRFA (Vocabulary).

GWR GWEDDW, a widower.	GWLEDD, feast.
OEDD YN BYW, lived.	GWAHODDWDYD, were invited; were asked.
SIR DREFALDWYN, Montgomeryshire.	AMRYW, several; many.
PENDERFYNODD, he resolved; made up his mind.	ACHLYSUR, occasion.
EILWAITH, again.	PAR, couple.
SERCH, affection; love.	DYGODD EI WRAIG I SYLW, introduced his wife.
PRIODI, to marry.	CUSANWCH, kiss.
CYFOETHOG, rich.	ADDAWAIS DDYFOD, I promised to bring.
OEDD YN BYW, that lived.	WEDI EDRYCH, after looking.
CYMYDOGAETH, neighbourhood.	TWYLLO, deceive.
LLE, where.	YE YDYCH WEDI EICH TWYLLO, you have been
PRIODAS, marriage.	
EI FOD AR FEDR DYFOD A, that he was about to bring.	O GWBL, at all.

EXERCISE.—Write the Counties of Wales in English and Welsh. Thus—Anglesey (*Sir Fôn*).

13.—Y Ci a'i Feistr.

YR oedd Ffrancwr yn awyddus i gael gwared o'i gi, ac i'r dyben yma dygodd yr anifail i'r afon Seine. Llogodd gwch a rhwyfodd i ganol yr afon, a thafodd ei gyfaill tawd i'r dŵr. Ymdrechai y ci

ddringo i fyny ochr y cwch, ond tarawai ei feistr ef ar ei balfau, gan ei wthio yn ol o hyd i'r afon. O'r diwedd, tra yn brwydro fel hyn gyda'r ei, syrthiodd ef ei hun i'r dwfr, ac yr oedd bron boddi. Pan welodd y ei ei feistr yn y dwfr, gadawodd y cwch ar unwaith, a nofiodd ato. Cymerodd afael yn ei goler, a daliodd ei ben uwchlaw'r dwfr. O'r diwedd gwardwyd y ddau, a dychwelodd y meistr a'r ei adref. Yr oedd yn edifar gan y meistr ei fod wedi ymddwyn mor greulawn tuag at y ei, ac yr oedd y ei ffyddlawn yn falch ei fod wedi achub ei feistr.

GEIRFA (Vocabulary).

FFRANCWR, a Frenchman.	YN BRWYDRO, struggling.
AWYDDUS, desirous; wishful.	FEL HYN, thus; in this way.
CAEL GWARED, get rid of.	BODDI, drown.
DYBEN, purpose.	GADAWODD, he left.
DYGODD, he took.	NOFIODD, swam.
LLOGODD, he hired.	CYMERODD AFAEL YN EI GOLER, he seized his collar; took hold of his collar.
RHWYFODD, rowed.	DALIODD, held.
CWCH, boat.	UWCHLAW, above.
YMDRECHAI, tried.	GWAREDWYD, were saved; rescued.
DRINGO, climb.	Y MAE YN EDIFAR GENYF, I am sorry.
OCHR Y CWCH, the side of the boat.	YR OEDD YN EDIFAR GANDDIO, he was sorry.
TARAWAI, struck.	YMDDWYN, behave.
PALFAU, paws.	MOR GREULAWN, so cruelly.
GAN EI WTHIO, pushing him.	FFYDDLAWN, faithful.
O HYD, all the time.	

14.—Atebiad ffraeth.

YR oedd gŵr cyfoethog wrth ei giniaw, a gadawodd i un o'i denantiaid sefyll i edrych arno tra yr oedd yn ymddiddan âg ef ar faterion pwysig. O'r diwedd, gofynodd y gŵr mawr, "Pa newydd sydd, Dafydd?" "Dim, yn neillduol," ebe y ffermwr, "oddi-eithr fod yr hen hwch aew wedi dyfod a thri-ar-ddeg o fôch bach, ac nid oes ganddi ond deuddeg o dethau."

“Beth a wna y trydydd-ar-ddeg?” ebe y meistr tir.
 “Rhaid iddo wneyd yr un peth a minau,” ebe y
 ffermwr, “rhaid iddo sefyll ac edrych tra byddo y
 lleill yn bwyta!”

Y mae y fuwch wedi dyfod â llo bach. Y mae y
 ddafad wedi dyfod a dau oen du. Y mae'r gaseg
 wedi dyfod ag ebol. Y mae gan yr hwch ddu doraid
 (dorllwyth) o berchyll. Nid oes ganddi ond un llygad.
 Nid oes genyf ond un fraich. Nid oes ganddo ond
 dau frawd.

GEIRFA (Vocabulary).

FFRAETH, witty.

GADAWODD I UN, he left one.

TENANTIAID, tenants.

SEFYLL I EDRYCH, to stand to
 look.

YMDIDDAN, talk.

MATERION PWYSIG, important
 matters.

GWR MAWR, squire.

PA NEWYDD SYDD, what news?

YN NEILLDUOL, particular.

ODDIEITHR, except.

FOD YR HEN HWCH ACW, that that old
 sow.

WEDI DYFOD A, has brought.

NID OES GANDDI OND, she has only.

TETHAU, teats.

RHAID IDDI, she must.

YR UN PETH A, the same as.

GWNEYD, do.

EBOL, colt.

TORAID (torllwyth) O BERCHYLL, a
 litter of pigs.

CORRECT.—He reads beautiful, but he spells bad.
 The boy sings nice. This is good writing, but that is
 not so well. He runs slow. They work hardly.
 Close the door fastly. I just fell into the river. It
 rains just every day. The girl answered polite. The
 children write good. The scholars are very carefully.
 The preacher speaks distinct.

15.—Y Tri Heliwr.

CYTUNODD llew, asyn, a llwynog, â'u gilydd i
 fyned i hela. Aethant i'r goedwig, a llwyddas-
 ant i ddal llawer iawn o greaduriaid gwylltion.

Wedi'r helfa, gorchymynodd y llew i'r asyn eu rhanu. Ufuddhaodd yntau, a rhanodd yr ysglyfaeth yn dair rhan gyfartal, gan ofyn i'r llew ddewis. Ond yr oedd y llew yn dysgwyl rhan fwy na'r ddau arall, o herwydd ei urddas fel brenin y goedwig. Collodd ei dymer, a lladdodd yr asyn diniwed. Wedi hyny, perodd i'r llwynog ranu. Rhanodd yntau, a rhoddodd bron yr oll i'r llew, gan gadw ond ychydig iawn iddo ei hun. "Pwy a'th ddysgodd di i ranu fel yma?" gofynodd y llew. "Y ddamwain a ddigwyddodd i'r asyn," ebai'r llwynog ffalst. Fe ddylai anffawd eraill ein gwneyd ni yn fwy doeth.

TRANSLATE.—Gofynwch i'r carcharor sut y daeth i'r carchar. Rhoddwch i'r tlawd a'r anghenus. Y mae y cardotyn yn myned ar hyd y ffordd gan ofyn elusen. Rhanodd y llwynog yr ysglyfaeth, gan gadw ychydig iawn iddo ei hun.

GEIRFA (Vocabulary).

HELIWR, hunter; huntsman.	URDDAS, dignity.
CYTUNODD, agreed.	DINIWED, innocent.
LLEW, ASYN, A LLWYNOG, a lion, an ass, and a fox.	PERODD, he made.
A'U GILYDD, with each other.	YR OLL, all; the whole.
HELA, hunt.	IDDO EI HUN, for himself.
COEDWIG, forest.	PWY? who?
LLWYDDASANT, succeeded.	DAMWAIN, accident.
GWYLLTION, wild.	DIGWYDDODD, happened.
HELFA, chase.	FFALST, cunning.
GORCHYMYNODD, asked; com- manded.	DYLAI ANFFAWD ERAILL, the mis- fortune of others ought.
RHANU, divide; share.	GWNEYD, make.
UFUDDHAODD YNTAU, he obeyed.	MWY DOETH, wiser.
YSGLYFAETH, booty.	GOFYNWCH I'R CARCHAROR, ask the prisoner.
YNDAIREHAN, into three shares.	RHODDWCH I'R TLAWD, give to the poor.
CYFARTAL, equal.	ANGHENUS, needy.
DEWIS, to choose.	CARDOTYN, beggar.
DYSGWYL, expect.	ELUSEN, alms.
O HERWYDD, on account of.	



16.—Y Ci a'i gysgod.

UN diwrnod, yr oedd ei yn croesi nant fechan. Cariai ddernyn o gig yn ei geg. Gwelodd ei gysgod yn y dwfr, a meddyliodd mai ei arall ydoedd yn cario ei ysglyfaeth. Dododd ei ben yn nes at y dwfr, a syllodd yn fanwl am ychydig amser ar y dwfr odditano. Yna dywedodd, "Ni elli fy nhwyllo, ac ni ollyngaf yr hyn sydd genyf. Y mae fy synwyr yn dweyd wrthyf nad ydwyf ond fy nghysgod." Efel-ychwch gallineb y ci, ac na ollyngwch y gwrthrych am y cysgod.

Lladdodd y ffermwr yr anifail, a gwerthodd y cig am chwe' cheiniog y pwys. Y mae cig moch yn hongian dan y llofft. Nid yw fy nghyfaill yn leicio cig dafad, ond y mae yn hoff iawn o gig llo. Y mae'r Saeson yn bwyta llawer o gig eidion. Y mae cig danas yn frau.

GEIRFA (Vocabulary).

CYSGOD, shadow.	SYDD GENYF, I have.
NANT, brook.	SYNWYR, sense.
CARIAL, he carried.	NAD YDWYT OND, you are only.
DERNYN O GIG, a piece of meat.	EFELYCHWCH, imitate; do the same.
CEG, mouth.	CALLINEB Y CI, the dog's wisdom; prudence.
MAI CI ARALL YDOEDD, that it was another dog.	GWETHRYCH, substance.
YN CARIO, carrying.	Y PWYS, a pound.
YSGLYFAETH, prey.	CIG MOCH, bacon.
YN NES, nearer	LLOFT, loft.
SYLLODD, gazed.	CIG DAFAD, mutton.
YN FANWL, carefully.	CIG LLO, veal.
ODDITANO, under him.	SAESON, English.
NI ELLI FY NHWYLLO, you cannot deceive me.	CIG EIDION, beef.
NI OLLYNGAF, I shall not quit; loosen.	CIG DANAS, venison.
YR HYN, what.	BRAU, tender.

17.—Chwythiad gref.

YR oedd ffermwr yn arwain llô dros bont, ond wedi cyrhaedd y canol, safodd y creadur ystyfnig yn sydyn, a nacaodd (pallodd) symud o'r fan. Yr oedd y ffermwr mewn penbleth, ac ni wyddai beth i'w wneyd. Ar hyn gwelodd y llythyrwr yn agoshau, a gofynodd iddo fyned tu ol i'r llo. Ufuddhaodd yntau. Yn mhellach, dywedodd y ffermwr wrtho am chwythu chwythiad gref yn ei gorn, gan ddysgwyl y byddai i'r sŵn ddychrynu y llo yn ei flaen. Gwnaeth y dyn yn ol gorchymyn y ffermwr, ond dychrynwyd y llo gymaint fel y neidiodd yn glir dros ganllaw y bont, a disgynodd i'r afon fawr odditanodd. Yr oedd amryw o blant wedi ymgasglu i'r lle, a phan welsant y fath naid, curasant eu dwylaw yn llawen. Edrychodd y perchenog ar y llythyrwr mewn syndod, a dywedodd yn sarug, "Yr hen benbwl, yr oedd y chwythiad yna yn llawer rhy gref i lo!"

GEIRFA (Vocabulary).

CHWYTHIAD, blast; blow.	CHWYTHU, blow.
CRYF (gref), strong.	CORN, horn.
ARWAIN, leading.	Y BYDDAI I'R SWN DDYCHRYNU, the sound would frighten.
DROS BONT, over a bridge.	YN OL, according to.
WEDI CYRHAEDD, after reaching.	GORCHYMYN Y FFERMWR, the farmer's command.
CANOL, middle.	DYCHRYNWDYD, was frightened.
YSTYFNIG, stupid; stubborn.	GYMAINT FEL, so much that.
YN SYDYN, suddenly.	YN GLIR, clearly; clean.
NACAODD, refused.	CANLLAW, parapet.
O'R FAN, from the spot.	DISGYNODD, descended.
PENBLETH, difficulty.	YMGASGLU, gather.
NI WYDDAI, did not know; knew not.	ODDITANODD, below.
AR HYN, upon this.	NAID, jump.
GWELODD, he saw.	CURASANT, clapped.
LLYTHYRWR, postman.	YN LLAWEN, joyfully.
	PERCHENOG, owner.

AGOSHAU, approach; come near.	SYNDOD, surprise.
TU OL, behind.	YN SARUG, roughly; angrily.
GWNAETH, did.	YR HEN BENBWL, you old blockhead.
YN MHELLACH, further.	YN EI FLAEN, (N.W.)—onward; yn mlaen, (S.W.).

18.—Y Llew a'r Llwynog.

YR oedd llew wedi myned yn hen, ac yn analluog i fyned i hela. Yna ymdrechodd gael rhywbeth i'w fwyta yn y modd cyfrwys yma. Aeth i'w ffau, a gorweddodd yno gan gymeryd arno ei fod yn sal. Pan ddeuai yr anifeiliaid i dalu ymweliad âg ef, gafaelai ynddynt a lladdai hwynt. Y llwynog, gan ddrwgdybio y tric, a ddaeth i weled ei Fawrhydi, ond cymerodd ofal i beidio myned i'r ffau. "Yr wyf fi yn sal iawn," ebe'r llew, "y mae fy nerth yn fy ngadael o ddydd i ddydd; ond paham na ddeui i fewn yma?" "O herwydd," atebai y llwynog cyfrwys, "fy mod yn gweled ôl traed y rhai sydd yn d'od i fewn, ond nid wyf yn gweled ôl traed neb yn d'od allan."

TRANSLATE.—Y mae ôl traed y plant i'w gweled yn yr eira. Y mae dyn call yn defnyddio ei lygaid, ac yn gochelyd perygl pan yn ei weled. Y mae y ceffyl yna yn werth llawer o arian. Mi af i ben y Wyddfa yr wythnos nesaf, ac yna caf weled golygfa hardd. Yr wyf am i chwi symud o'r fan yna.

GEIRFA (Vocabulary).

OEDD WEDI MYNED, had become.	NERTH, strength.
ANALLUOG, unable.	TALU YMWELIAD AG EF, pay a visit to him; visit him.
MODD CYFRWYS, cunning manner; way.	PAHAM NA DDEUI? why don't you come?
FFAU, den.	O HERWYDD, because.
GORWEDDODD, lay.	OL TRAEID Y RHAI, the footprints of those (who).

GAN GYMERYD ARNO, pretending.	GOCHELYD, avoids; shuns.
YMWELIAD, a visit.	WYDDFA, Snowdon.
AG EF, to him.	CAF WELED, I shall see.
GAN DDRWGDYBIO, suspecting.	GOLYGFA, sight; scenery.
MAWRHYDI, Majesty.	YR WYF AM, I want.
CYMERODD OFAL, took care.	OL TRÆD NEB, the footprints of any-
I BEIDIO MYNED, not to go.	body.

19.—Y Llew a'r Llygoden.

RHUTHRODD llygoden fach allan o'i nhyth yn y ddaear, a deffrodd lew oedd yn cysgu yn dawel gerllaw. Gafaelodd y llew yn y creadur bach anffodus gan feddwl dial arni. Hithau a erfyniai yn daer am ei bywyd. Gwelodd brenin y goedwig ei bod yn annheilwng o hono i ddial ar lygoden, a gadawodd iddi fyned. Nid oedd yn meddwl ei gweled drachefn. Ychydig amser wedi hyny, beth bynag, syrthiodd y llew i rwyd tra yn erwydro yn y nos ac yn chwilio am ysglyfaeth. Yr oedd yr holl gwm yn adsain gan ei ruadau. Rhedodd y llygoden i'w gynorthwyo, a dywedodd wrtho y geiriau canlynol, "Nid oes genych ddim i'w ofni, achos nid wyf wedi anghofio i chwi arbed fy mywyd." Ar y gair dechreuodd gnoi y rhwyd a thori y cylymau, ac o'r diwedd llwyddodd i gael ei chymwynaswr yn rhydd.

Y mae yn annheilwng o honoch i ddial ar neb. Ychydig ddyddiau yn ol rhedodd llygoden ar draws llew. Ychydig amser yn ol cafodd y caethwas ei ryddid. Deffrodd y llygoden lew oedd yn cysgu yn dawel.

GEIRFA (Vocabulary).

RHUTHRODD, rushed.	RHWYD, net; snare.
DAEAR, earth.	TRA YN ERWYDRO, whilst wandering.
DEFFRODD, awoke.	YR HOLL GWM, the whole valley.
OEDD YN CYSGU, that was sleeping.	ADSAIN, echo.

YN DAWEL, quietly.	RHUADAU, roars.
GERLLAW, near; closely.	CYNORTHWYO, to help.
ANFFODUS, unfortunate.	CANLYNOL, following.
DIAL, to revenge.	NAD OES GENYCH DDIM, you have nothing.
HITHAU A ERFYNIAI, she begged.	I'W OFNI, to fear.
YN DAER, earnestly.	ACHOS, because.
EI BOD, it was.	ANGHOFIO, forget.
ANNHEILWNG, unworthy.	WEDI ANGHOFIO, have forgotten.
GADAWODD IDDI, let her.	I CHWI ARBED, you saved.
NID OEDD YN MEDDWL, he did not think.	YSGLYFAETH, prey.
TRACHEFN, again.	CNOI, gnaw; bite.
YCHYDIG AMSER, a short time.	CYLYMAU, knots.
YCHYDIG DDYDDIAU, a few days.	CYMWYNASWR, benefactor.
BETH BYNAG, however.	RHYDDID, liberty.
	AR DRAWS, across.

20.—Tori Cnau

Yr oedd geneth ieuanc wedi cyflogi fel morwyn mewn teulu tawel. Nid oedd wedi bod mewn gwasanaeth o'r blaen. Un diwrnod, perodd ei meistres iddi dori ychydig o gnau i wneuthur pwding. Aeth yr eneth at ei gwaith, a dechreuodd o ddifrif gario allan orchymyn ei meistres. Ond ni fedrai dori llawer o gnau; yr oeddynt yn rhy gelyd i'w danedd. Bu yno am awr gyfan yn brysur iawn, a synai y feistres paham yr oedd mor hir. O'r diwedd, daeth yr eneth gyda gwyneb coch chwyddedig i'r ystafell at ei meistres, gan gario ychydig gnau ar blat. Dywedodd wrth y feistres, "Nis gallaf dori y cnau hyn. Bu agos i mi dori fy nanedd gyda'r deg yma, ac ni thoraf ychwaneg, mi ymadawaf a'm lle yn gyntaf." Nis gallai y feistres lai na chwerthin am ben yr eneth. Dysgwyd y forwyn newydd sut i ddefnyddio yr efail gnau.

Bu yn agos iddi dori ei holl ddanedd. Bu yn agos iddi lewygu. Bu yn agos i'r gyrwr syrthio dan yr olwynion. Nis gallwn lai na chwerthin pan welais y dyn.

GEIRFA (Vocabulary).

GENETH, girl.	GWYNEB COCH CHWYDDEDIG, red swollen face.
CYFLOGI, engage; hire.	GAN GARIO, carrying.
FEL MORWYN, as a servant girl.	AR BLAT, on a plate.
NID OEDD WEDI BOD, she had not been.	NIS GALLAF, I cannot.
GWASANAETH, service.	BU AGOS I MI DORI, I nearly broke.
DORI YCHYDIG GNAU, crack a few nuts.	NI THORAF, I shall not break.
O DDIFRIF, in earnest.	YCHIWNAEG, more.
NI FEDRAI DORI, she could not crack.	YMADAWAF A, I shall leave.
RHY GELYD, too hard.	NIS GALLWN LAI NA CHWERTHIN, I could not but laugh; I could not help laughing.
BU, was.	EFAIL GNAU, nut cracker.
AWR GYFAN, a whole hour.	LLEWYGU, faint.
SYNAI, wondered.	PERODD EI MEISTRES IDDI, her mistress made her.
YN BRYSUR IAWN, very busy.	

EXERCISE:—Write 12 sentences in the Passive Voice.

21.—Atebiad Aesop.

UN diwrnod, ychydig amser cyn machludiad haul, cyfarfyddodd Aesop a theithiwr blin ar y ffordd. Wedi dweyd “Nos da” wrth Aesop, gofynodd y dyeithryn iddo, “Mewn pa faint o amser y gallaf gyrhaedd y dref acw a welwch o’ch blaen?” “Rhaid i chwi gerdded,” meddai Aesop. “Yr wyf yn gwybod yn dda fod yn rhaid i mi gerdded i gyrhaedd yno, ond dywedwch i mi mewn pa faint o oriau y gallaf gyrhaedd yno.” “Rhaid i chwi gerdded,” meddai Aesop yr ail waith. “Y mae y gwalch yma yn fy ngwawdio,” meddai y dyn dyeithr wrtho ei hun, “ni ofynaf ddim yn ychwaneg iddo,” ac aeth yn mlaen. “Hai!” gwaeddodd Aesop ar ei ol, “mewn dwy awr chwi fyddwch yn y dref.” Stopiodd y trafaeliwr yn sydyn mewn syndod, a gofynodd sut y gwyddai yn awr y byddai yno mewn dwy awr. “Wel, sut y gall-

swn ddweyd wrthyhych o'r blaen heb i mi eich gweled yn cerdded," meddai Aesop dan wenu.

Y mae yn rhaid i chwi gerdded. Y mae yn rhaid i mi weithio. Pa mor bell ydyw Lerpwl oddiyma? Pa mor agos i'r ymyl y gellwch yru eich cerbyd? Mewn pa faint o amser y byddaf yn y dref? Nid oes eisiau dim arnaf. Ni ofynaf ddim iddo.

GEIRFA (Vocabulary).

MACHLUDIAD HAUL, sunset.	DYN DYEITHR, stranger.
TEITHIWR BLIN, weary traveller.	NI OFYNAF DDIM IDDO, I shall ask him nothing.*
WEDI DWEYD, after saying.	YCHWANEG, more.
GOFYNODD, asked.	HAI! hey!
DYEITHRYN, stranger.	BYDDWCH, will be.
MEWN PA FAINT O AMSER? in what time?	TRAFaeliwr, traveller.
Y GALLAF GYRHAEDD, can I reach.	Y BYDDAI YNO, he would be there.
ACW, that.	I MI EICH GWELED YN CERDDED, seeing you walk.
RHAID I CHWI GERDDED, you must walk.	DAN WENU, smiling.
GWALCH, rogue; fellow.	YMYL, edge.
SYNDOD, surprise; astonishment.	CERBYD, carriage.
SUT? how?	* Or, I shall <i>not</i> ask him <i>anything</i> .

22.—Gweithred Maelionus.

YR oedd Syr Philip Sydney yn byw yn ystod teyrnasiad y frenhines Elizabeth. Yr oedd yn filwr gwrol, yn fardd o chwaeth dda, ac yn foneddwr coeth. Pan yr oedd yn ymladd yn yr Iseldiroedd, lladdwyd dau geffyl dano, a thra yn myned ar gefn y trydydd, clwyfwyd Syr Philip yn farwol. Cariwyd ef o'r neilldu gan ei gyfeillion er mwyn i'r meddyg ei weled. Dioddefai yn fawr o eisieu dŵr, ac erfyniai am ychydig i'w yfed. Tra yn codi y cwpan at ei wefusau, gwelodd yn gorwedd ar y llawr gerllaw

iddo, filwr clwyfedig, yr hwn a edrychai â llygaid hiraethlawn ar y dŵr. Ar hyn, tynodd y pendefig hael y cwpan yn ol o'i enau heb gyffwrdd â'r dŵr, ac estynodd ef i'r milwr oedd ar farw, gan ddweyd, "Y mae dy angen di yn fwy na'r eiddo fi." Bu Syr Philip farw o'r clwyf yn dair-ar-ddeg-ar-hugain mlwydd oed, ond y mae ei gofiadwriaeth eto yn werdd.

GEIRFA (Vocabulary).

GWEITHRED HAELIONUS, a generous act.	LLAWR, ground.
YN YSTOD, during.	YN GORWEDD, lying.
TEYENASIAD, reign.	CLWYFEDIG, wounded.
GWROL, brave.	HIRAETHLAWN, longing.
BAEDD, bard.	PENDEFIG, nobleman.
CHWAETH, taste.	TYNODD, took.
COETH, cultured; educated.	GENAU, mouth.
ISELDIROEDD, Lowlands.—Holland.	HEB GYFFWRDD A'R DWR, without touching the water.
MYNED AR GEFN, mounting.	ESTYNODD, handed.
CLWYFWYD, was wounded.	OEDD AR FARW, dying.
YN FARWOL, mortally.	ANGEN, need.
O'R NEILLDU, aside.	EIDDO FI, mine.
ER MWYN I'R MEDDYG, &c., for the doctor to, &c.	BU FARW, died.
DIODDEFAI, he suff' red.	COFFADWRIAETH, memory.
O EISIAU, from the want of.	ETO, still.
TRA YN CODI, whilst raising; lifting.	WERDD, green.
GWEFUSAU, lips.	

23.—Y Carw a'i lun.

YR oedd carw yn yfed mewn nant loew, a gwelodd ei lun yn y dwfr. Edmygai ei gyrr hirion braf, ond cwynai fod ei goesau mor feinion. Yn ddisymwth, fe glywodd gri yr helwyr. Yna rhedodd â'i holl nerth drwy y caeau, a gadawodd yr helgwn yn mhell ar ol. Ar ol llawer o chwilio, cafodd le i ymguddio mewn coedwig, ac yno gwrandawai yn astud tra deuai y cŵn yn nes o hyd. Dechreuodd

feddwl mai gwell oedd dianc, ond cydiodd ei gyrn yn nghanenau y coed, ac ni allasai symud o'r lle. Yn fuan, daeth y cwn i fyny ato, a darniwyd ef ar unwaith gan eu danedd creulawn. Wrth farw, dywedai, "Yr wyf yn deall yn awr, ond yn rhy hwyr (ddiweddar), mor ddefnyddiol i mi oedd yr hyn a ddirmygwn, ac mor ddinystriol yr hyn oeddwn mor falch o hono." Yr ydym yn aml yn dirmygu yr hyn sydd ddefnyddiol i ni, ac yn ymfalchio yn yr hyn sydd ddinystriol i ni.

Yr ydwyf yn falch eich gweled. Yr ydym yn falch i glywed. Y mae eich brawd yn fachgen balch. Y mae eich chwaer yn eneth falch.

GEIRFA (Vocabulary).

CAEW, stag.	CYDIODD, got fast; got entangled.
LLUN, shadow; picture.	SYMUD, to move.
NANT LOEW, clear book. 7	DARNIWDYD EF, he was torn.
EDMYGAI, he admired.	WRTH FARW, whilst dying.
CYRN HIRION BRAF, fine long horns.	RHY HWYR, too late.
CWYNAI, complained.	MOR DDEFNYDDIOL, how useful.
MEINION, slender.	YR HYN, what.
YN DDISYMWTH, suddenly.	A DDIRMYGWN, I scorned.
CRI, cry.	DINYSTRIOL, destructive; hurtful.
A'I HOLL NERTH, with all his might.	MOR FALCH O HONO, so proud of.
HELGWN, hounds.	DIRMYGU, scorn.
LLAWER O CHWILIO, much searching.	YR HYN SYDD, what is.
YMGUDDIO, to hide himself.	YMFALCHIO, pride ourselves.
GWRANDAWAI, he listened.	YN YR HYN, on what.
YN ASTUD, attentively.	FALCH EICH GWELED, glad, &c.
MAI GWELL OEDD DIANC, that it was better to escape; flee.	BACHGEN BALCH, proud boy.

24.—Y Cyfreithiwr Ieuanc.

FE ddygwyd dyn o flaen llys yn Llundain am gyflawni lladrad penffordd. Canfyddodd y barnwr nad oedd gan y dyn neb i'w amddiffyn. Yna

amneidiodd ar gyfreithiwr ieuane gobeithiol gerllaw iddo i ddadleu ar ei ran a rhoddi iddo y cyngor goreu a fedrai dan yr amgylchiadau. Cymerodd y cyfreithiwr y troseddwr o'r neilldu, a holodd ef yn fanwl. Yn mhen pum' munyd anfonwyd i nol (hol) y cyfreithiwr, ond synodd y barnwr ei weled yn dyfod heb y troseddwr. "Pa le mae'r dyn?" ebe'r barnwr. "Wedi myned," ebe'r cyfreithiwr. "Dywedasoch wrthyf am roddi iddo y cyngor goreu a fedrwn; cyfaddefodd ei fai, ac agorais inau y ffenestr, a dywedais wrtho am redeg i ffwrdd, ac yn awr y mae dros fill-dir oddi yma."

Anfonwyd i nol y cyfreithiwr. Anfonwyd i nol meddyg. Anfonwyd i nol saer. Anfonwyd am ei frawd. Anfonwyd am ei dad.

GEIRFA (Vocabulary).

DYGWYD, was brought.	AMGYLCHIADAU, circumstances.
LLYS, court.	TROSEDDWR, accused.
AM GYFLAWNI LLADRAD PENFFORDD, for committing a high-way robbery.	HOLODD, questioned.
CANFYDDODD, found out; saw.	ANFONWYD I NOL Y CYFREITHIWR, the solicitor was sent for.
NAD OEDD GANDDO NEB, that he had nobody.	SYNODD Y BARNWR, the judge was surprised.
AMDDIFFYN, to defend.	WEDI MYNED, gone.
AMNEIDIODD AR, he nodded to; made a sign to.	CYFADDEFODD, he confessed.
GOBEITHIOL, promising.	BAI, fault; guilt.
DADLEU, plead.	AGORAIS INAU, I opened.
AR EI RAN, on his behalf.	AM REDEG, to run.
CYNGOR, advice.	MEDDYG, doctor.
A FEDRAI, he could.	

EXERCISE.—(1) Name all the things you see in your kitchen at home. (2) Name all things in the garden.

25.—Y Morgrugyn a'r Golomen.

UN boreu braf yn yr Hydref, aeth morgrugyn i ffynon i dori ei syched, a chariwyd ef ymaith gan y llif. Pan yr oedd ar fodd, gwelodd colomen ef, a thafodd iddo i'r dŵr gangen fechan coeden. Ar ol ymdrech galed, gosododd y morgrugyn ei hun ar y gangen, ac achubodd ei fywyd trwy hyny. Yn fuan wed'yn, daeth daliwr adar i'r gymydogoeth, a cherddai oddiamgylch yn droednoeth. Gwelodd y dyn y golomen, ac yr oedd ar fedr ei saethu, ond yn ddisymwth, brathwyd ef gan y morgrugyn yn ei sawdl. Yr oedd y poen (gofid) yn fawr, a phlygodd i lawr i rwbio ei sawdl. Pan gododd i fyny yr oedd y golomen ddiniwed wedi (hedeg) hedfan ymaith, ac ni welodd y dyn mo honi mwyach. Rhwystrowyd ef yn ei fryd ar fywyd y golomen gan y morgrugyn.

Y mae'r hanes hwn yn ein dysgu i fod yn garedig tuag at greaduriaid direswm, canys gallant fod yn foddion i'n gwaredu o berygl mewn ffordd nas gwyddom.

GEIRFA (Vocabulary).

MORGRUGYN, ant.	YN DROEDNOETH, barefooted.
COLOMEN, dove.	YR OEDD AR FEDR, he was about.
HYDREF, Autumn.	BRATHWYD, was bitten.
FFYNON, well.	SAWDL, heel.
I DORI EI SYCHED, to quench its thirst.	POEN, pain.
LLIF, flood.	PLYGODD, stooped; bent.
PAN YR OEDD AR FODDI, when it was about to drown.	OEDD WEDI HEDFAN, had flown.
CANGEN COEDEN, branch of a tree.	NI WELODD MO HONI MWYACH, he did not see it again.
YMDRECH GALED, a hard struggle.	RHWYSTROWYD, he was prevented.
GOSODODD, placed.	YN EI FRYD, in his intention.
EI HUN, itself.	GAREDIG, kind.

ACHUBODD, saved.	TUAG AT, towards; to.
TRWY HYNY, by that means; in that way.	DIRESWM, irrational.
YN FUAN WED'YN, soon afterwards.	CANYS GALLANT FOD, for they may be.
DALIWR ADAR, a bird catcher.	YN FODDION, the means.
CYMYDOGAETH, neighbourhood.	I'N GWAREDU, of saving us.
ODDIAMGYLCH, about.	

26.—Yr Elephant.

MEWN dinas yn yr India, lle cedwir llawer o elephantiaid, yr oedd teiliwr yn gweithio ar fwrdd o flaen ffenestr agored. Bob dydd elai elephant dōf heibio i nol dŵr. Yr oedd y dyn wedi dyfod yn ffrynd mawr â'r anifail call drwy roddi iddo damaid o rywbeth i fwyta pan yn pasio yn ol a blaen i'r dŵr. Estynai yr elephant ei drwnc i fewn drwy y ffenestr bob dydd wrth basio. Un diwrnod, yr oedd y teiliwr yn digwydd bod mewn tymer ddrwg, ac yn lle rhoddi tamaid i'r elephant yn ol ei arfer, brathodd (pigodd) ef â'r nodwydd. Tynodd y creadur ei drwnc yn ol yn union, ac aeth ymlaen yn hamddenol. Ond wedi tori ei syched, llanwodd ei drwnc âg amryw alwyni o'r dŵr budraf allai gael. Wrth ddychwelyd, estynodd ei drwnc i fewn drwy y ffenestr, a chwythodd ei gynwys i wyneb y dyn oedd wedi ei gam-drin gyda'r fath nerth nes haner boddodd ef. Chwarddai pawb am ben y teiliwr gwlyb, a dywedent ei fod wedi cael yr hyn oedd yn haeddu.

Y mae'r plentyn yn ffrynd â'r ci. Nid wyf yn ffrynd i chwi. Y mae'r bachgen bach yn ffrynd â phawb. Y mae'r ceffyl wedi tori ei syched. Y mae y cardotyn wedi tori ei newyn.

GEIRFA (Vocabulary).

DINAS, a city.	YN LLE RHODDI, instead of giving.
LLE CEDWIR LLAWER O ELEPHANTIAID, where many elephants are kept.	YN OL EI ARFER, as usually.
AR FWRDD, on a table.	BRATHODD, he stung.
ELAI HEIBIO, passed by; went by.	NODWYDD, needle.
DOF, tame.	TYNODD YN OL, took back.
OEDD WEDI DYFOD, had become.	YN HAMDDENOL, leisurely; slowly.
CALL, wise; sagacious.	BUDRAF, dirtiest.
YN FFYND MAWR A'R, a great friend of.	ALLAI GAEL, he could find.
DRWY RODDI, by giving.	WRTH DDYCHWELYD, in returning.
TAMAID, a bit; mouthful.	CHWYTHODD, blew.
YN OL A BLAEN, backwards and forwards.	CYNWYS, contents.
ESTYNAI I FEWN, put in.	OEDD WEDI EI GAMDRIN, who had ill-used him.
TRWNC, trunk.	NES HANER BODDODD EF, that he half drowned him.
OEDD YN DIGWYDD BOD, happened to be.	EI FOD WEDI CAEL, he had had.
TYMER, temper.	YE HYN, what.
HAEDDU, deserve.	TORI EI NEWYN, to satisfy himself.
NEETH, force.	TORI EI SYCHED, to quench his thirst.

27.—Y Ci oddi cartref.

Y mae yr hanes canlynol yn wir am gi oedd yn byw mewn tre' yn Sir Forganwg. Collwyd ef yn y brif ystryd, ac wedi treulio amser maith i chwilio am dano aeth ei feistres adref, ond mawr oedd ei syndod pan gyrhaeddodd y tŷ i'w weled wrth y drws. Dywedodd y gwas yr hanes yma wrthi:—"Pan gollwyd y ci, gwelodd gerbyd ac aeth i fewn iddo, ac ni allai y cerbydwr ei gael allan am ei fod yn dangos (noethi) ei ddannedd ac yn chwyrnu yn ffyrnig. Galwodd yntau ar heddeiddiad, ond nis gallai hwnw ychwaith ei symud. Ond gyda thipyn o drafferth darllenasant yr enw a'r cyfeiriad ar y goler. Yna, cytunasant mai y peth goreu fuasai myned âg ef adref. Wedi cyrhaedd y tŷ, canodd y cerbydwr y gloch a gofynnodd am ei gludiad, yr hwn a dderbyniodd wrth

gwrs. Yna agorodd y gwas ddrws y cerbyd a neidiodd y ci allan fel pe na buasai dim wedi digwydd.”

GEIRFA (Vocabulary).

HANES CANLYNOL, the following story.	NIS GALLAI HWNW YCHWAITH EI SYMUD, he also could not remove him.
AM GI, of a dog.	TIPYN O DRAFFERTH, some trouble.
OEDD YN BYW, that lived.	A'R CYFEIRIAD, and the address.
SIR FORGANWG, Glamorganshire.	COLER, collar.
PRIF, chief; principal.	CYTUNASANT, agreed.
WEDI TREULIO AMSER MAITH, after spending a long time.	MAI Y PETH GOREU FUASAI, that it would be best.
CYRHAEDDODD, reached.	MYNED AG EF, to take him.
MAWR OEDD EI SYNDOD, great was her surprise; (<i>or better</i>) she was greatly surprised.	CANODD Y GLOCH, rang the bell.
CERBYD, a carriage.	CLUDIAD, fare; pay.
I FEWN IDDO, into it.	YR HWN, which.
CERBYDWR, driver.	WRTH GWRS, of course.
ALLAI, could.	DRWS Y CERBYD, the carriage door.
AM EI FOD YN DANGOS, as he was showing.	FEL PE NA BUASAI DIM WEDI DIGWYDD, as if nothing had happened.
AC YN CHWYRNU, and was snarling.	
YN FFYRNIG, savagely.	

28.—Ci deallus.

YR oedd gan fugail, yr hwn oedd gyfaill i mi, gi defaid nas gwelais ei fath yn un man arall. Un noswaith, y llynedd, gwahoddodd fy nghyfaill fi a'm priod i gael swper gydag ef. Ar yr achlysur hwn dangosodd i mi y medrai y ci ei ddeall bob gair hyd yn nod pe na byddai yn siarad âg ef. Dywedodd gan hyny wrthyf, "Yr wyf yn meddwl fod y gwartheg yn yr yd." Er iddo siarad wrthyf yn dawel, deallodd y ci ef. Yna rhedodd yr anifail i'r beudy, ond gwelodd y gwartheg yno yn ddiogel. Daeth yn ol, a gorweddodd o flaen y tân fel o'r blaen. Yn fuan wedi hyny ail-adroddodd fy nghyfaill y geiriau, a rhuthrodd y ci allan eilwaith, gan fyned yn syth i'r

beudŷ eto. Gan fod pob peth yn iawn, fe ddychwelodd i'r tŷ drachefn. Y drydedd waith siaradwyd yr un geiriau, ond yn awr ni wnaeth y ci ond siglo ei gynffon. Ar yr un pryd edrychai i wyneb ei feistr i'w geryddu am ddweyd yr hyn nad oedd wir.

GEIRFA (Vocabulary).

DEALUS, intelligent.	YN DAWEL, quietly.
YR OEDD GAN FUGAIL, YR HWN, &c., a shepherd who was a friend of mine had, &c.	BEUDY, cowhouse.
NAS GWELAIS EI FATH, the like of which I never saw.	DIOGEL, safe.
GWAHODDODD, invited.	GORWEDDODD, lay.
PRIOD, wife.	AIL-ADRODDODD, repeated.
ACHLYSUR, occasion.	RHUTHRODD, rushed.
MEDRAI, could.	EILWAITH, the second time.
HYD YN NOD, even.	GAN FYNED YN SYTH, going straight.
PE NA BYDDAI YN SIARAD, if he did not speak.	GAN FOD POB PETH YN LAWN, as everything was right.
AG EF, to him.	NI WNAETH OND SIGLO, he only shook.
GAN HYN, therefore.	CERYDDU, reprove; chastise.
GWARTIL, cows.	NI WNAETH OND AGOR Y DRWS, he only opened the door; he did nothing but open the door.
ER IDDO SIARAD, though he spoke.	

29.—Parot Crefyddol.

YR oedd parot hynod gan y diweddar Ddeon Stanley, ac yr oedd y pregethwr mawr a'i deulu oll yn hoff iawn o hono. Yr oedd wedi pigo i fyny lawer gair yn y teulu, ac yr oedd yn aml yn perichwerthin mawr iddynt. Difyrai ei hun drwy fyned dros yr holl restr o'r geiriau oedd wedi eu dysgu, fel plentyn yn myned dros ei wers yn yr ysgol. Ar un achlysur diangodd Polly o'i gawell, ac aeth allan o'r tŷ. Ar ol chwilio llawer am dano canfyddwyd ef yn hongian wrth bren afalau gerllaw. Brysiodd y Deon i'r fan, a chanlynwyd ef gan ei gyfeillion oeddynt yn aros yn ei dŷ ar y pryd. Ymdrechodd ei berchenog i'w

gael i lawr o'r goeden trwy daflu briwsion ar y llawr ; ond yr oedd Polly yn mwynhau ei hunan yn dda ar gangen uchel uwchlaw cyrhaedd pawb. O'r diwedd, pan welodd y fath dyrfa fawr o bobl odditano, edrychodd yn sobr arnynt, a dywedodd mewn llais eglur —“ Gweddiwn.”

GEIRFA (Vocabulary).

PAROT CREFYDDOL, a religious parrot.	CANFYDDWYD EF, he was found.
HYNOD, remarkable.	YN HONGIAN, hanging ; suspended.
DEON, Dean.	WETH BREN AFALAU, from an apple tree.
HEFYD, also.	BRYSIODD, hastened.
A'I DEULU OLL, all his family.	MAN, spot ; place.
HOFF, fond.	OEDDYNT YN AROS, that stopped ; remained.
YR OEDD WEDI PIGO, * he had picked.	YMDRECHODD, tried.
LLAWER GAIR, many a word.	PERCHENOG, owner.
PERI, cause.	BRIWSION, crumbs.
CHWERTHIN MAWR, great laughter.	AE Y LLAWR, ground.
DIFYRAI, he amused.	LLAWR TY, floor.
TRWY FYNED, by going.	MWYNHAU, enjoy.
RHESTR, list.	UWCHLAW, beyond.
OEDD WEDI EU DYSGU, he had learnt.	CYRHAEDD PAWB, everybody's reach.
FEL, as.	Y FATH DYRFA, such a crowd.
CAWELL, cage.	LLAIS EGLUR, clear voice.
	GWEDDIWN, let us pray.

* In writing this story the pronoun "it" or "he" may be used for the bird.

30.—Carcharor ffraeth.

DARLLENWN yn ein llyfrau am farnwr Seisnig, yr hwn oedd mor greulawn fel y rhoddwyd iddo y llysenw o "Jeffrey waedlyd." Wrth yr enw cas yma yr adnabyddir ef yn awr, lawer canrif ar ol ei farwolaeth. Pan oedd yn anerch ei garcharorion bygythiai hwynt â cheisiai eu dychrynu a'i eiriau chwervon. Yr oedd ei wynebpryd hefyd yn ddychryn i lawer. Pwy bynag a ddeuai o'i flaen, nid oedd yn

ddichonadwy ei waredu, ac nid oedd dim ond angeu yn ei aros. Ar un achlysur, tra ar gylchdaith, cyfarfyddodd a'i gydradd mewn carcharor, yr hwn oedd lawn mor ffraeth ag oedd yntau yn greulawn. Pwyntiai y barnwr ei ffon at y dyn oedd ar ei brawf o flaen y faine, a dywedai yn wawdlyd gan syllu yn ei wyneb, "Y mae twyllwr mawr wrth ben y ffon yma." Edrychodd y dyn arno yn ddidaro, a gofynodd, "Wrth ba ben, fy Arglwydd?" Synwyd Jeffrey gymaint gan atebiad parod y carcharor fel nas gallai ddweyd dim mewn atebiad.

GEIRFA (Vocabulary).

FFRAETH, witty.	NID OEDD YN DDICHONADWY, it was impossible.
DARLLENWN, we read.	NID OEDD DIM OND ANGEU YN EI AROS, nothing but death awaited him.
FEL Y RHODDWDY IDDO, that he was given.	AR GYLCHDAITH, on circuit.
LLYSENW, nickname.	CYDRADD, match.
GWAEDLYD, bloody.	LLAWN MOR FFRAETH, quite as witty.
WRTH YR ENW CAS YMA, by this bad name.	AG OEDD YNTAU, as he was.
YR ADNABYDDIR EF, he is known.	PWYNTIAI, pointed.
CANRIF, century.	FAINC, bench (of a Magistrate).
MARWOLWAETH, death.	OEDD AR EI BRAWF, that was on his trial.
PAN OEDD YN ANERCH, when he was addressing.	YN WAWDLYD, mockingly.
BYGYTHIAI, he threatened.	GAN SYLLU, staring.
CEISIAI, tried.	TWYLLWR, rogue.
DYCHRYNU, to frighten.	WRTH BEN, at the end of.
CHWERWON, rough; angry; bitter.	YN DDIDARO, unmoved; indifferently.
	SYNWDY EF GYMANT, he was so astonished; he was so struck.
GWYNEBPEYD, face; countenance.	MEWN ATEBIAD, in reply.
DYCHRYN, a fright.	ATEBIAD PAROD Y CARCHAROR, the prisoner's ready answer.

N.B.—Wait (aros) is Intransitive; Await (aros) is Transitive.

TRANSLATE:—Aroswh i mi; Y mae ef yn aros ei brawf. Y mae angau yn ein haros ni i gyd. Y mae'r plentyn yn aros wrth y drws.



31.—Yr Eryr a'r Fran.

YR oedd eryr yn hedfan yn yr awyr, pan welodd oen yn pori yn y maes odditano. Rhuthrodd arno yn sydyn, a chariodd ef i fyny yn ei grafangau i'w nyth. Gwelodd brân yr orchest, a threiodd gystadlu â brenin yr adar mewn gwroldeb. Ond yr oedd hi, druan, yn llawer gwanach na'r eryr, ond nid yn llai gwancus. Gan hyny, syrthiodd yn sydyn ar hwrdd (yn) llawn gwlan, ond glynodd ei thraed yn y cnuf (cnaif.) Ni allasai ddianc er ei holl ymdrechion. Daeth y bugail yno yn fuan, a daliodd hi yn rhwydd, ac ni allai lai na chwerthin wrth weled ei hymdrechion i ddianc. Yna dywedodd wrthi, "Yr wyf wedi dy ddal di yn awr, ac y mae dy holl ymdrechion i ddianc yn ofer. Rhaid i mi dy ladd fel y byddot yn esiampl i'r brain eraill, rhag iddynt yn y dyfodol ymfalchïo, ac ymgymeryd a gwaith uwchlaw eu gallu."

Y mae y llanc yn ymfalchïo yn ei nerth. Nis gallwn lai na chwerthin pan welais y frân ar gefn yr hwrdd. Nis gallaf lai na chwerthin wrth weled yr ysgrifen. Chwarddlais am ei ben. Chwarddodd Mari am ben ei brawd.

GEIRFA (Vocabulary).

ERYR, eagle.

BRAN, crow.

YN PORI, grazing.

ODDITANO, beneath him.

RHUTHRODD ARNO, he pounced upon him.

CRAFANGAU, claws.

GORCHEST, exploit.

CNUF, fleece.

ER EI HOLL YMDRECHION, in spite of all its efforts.

BUGAIL, shepherd.

YN RHWYDD, easily.

NI ALLAI LAI NA CHWERTHIN, he could not help laughing; he could not but laugh.


WRTH WELED, at seeing.

YN OFER, in vain.

CYSTADLU A, to compete with.	FEL Y BYDDOT, that you may be.
GWOLDEB, bravery.	ESIAMPL, example.
OND YR OEDD HI, DEUAN, but it, poor thing, was, &c.	RHAG IDDYNT YMFALCHIO, lest they may get proud.
LLAWER GWANACH, much weaker.	DYFODOL, future.
GWANCUS, greedy.	YMGYMERYD A, undertake.
GAN HYN Y, therefore.	GALLU, strength.
HWRDD, ram.	Y MAE YN YMFALCHIO, he prides himself.
YN LLAWN GWLAN, covered with wool.	CHWARDDAIS AM EI BEN, I laughed at him.
GLYNODD, stuck; got entangled.	NERTH, strength.
BLAEN, fore.	


32.—Trachwant yn cael ei gosbi.

CAFODD dau grwydryn bwrs a'i lon'd o arian ar y ffordd. Penderfynwyd i ranu ei gynwysiad yn gyfartal rhyngddynt. Gwelsant eu bod wedi dyfod yn gyfoethog ar unwaith, a meddylasant mai gwell ydoedd cael rhywbeth i'w fwyta gan eu bod eisoes yn newynog iawn. Aeth un o honynt i fasnachdŷ cyfagos i brynu bwyd â rhan o'r arian, gan adael ei gydymaith ar ol gyda'r gweddill o'r trysor. Wrth fyned ar hyd y ffordd, penderfynodd wenwyno y bwyd i ladd ei gydymaith. Penderfynodd y llall hefyd ei ladd yntau ar ei ddychweliad, fel y byddai ei ran ef o'r arian yn fwy. Pan ddychwelodd y prynwr â'r bwyd wedi ei wenwyno, tarawodd ei gydymaith ef a'i holl egni, a bu farw ar amrantiad. Yna, eisteddodd y llofrudd i lawr i fwyta y bwyd, ac yn fuan yr oedd yn gorwedd yn gorph marw oddiwrth effeithiau y gwenwyn. Fel yma, achoswyd eu marwolaeth gan eu trachwant. Gadawyd yr arian ar ymyl y ffordd i weddw dlawd, yr hon, yn ffodus, oedd yr ymdeithydd nesaf.



CASTELL CONWAY. (CONWAY CASTLE.)

From a Photograph by Carl Norman & Co., Tunbridge Wells
By permission of the Proprietors of the *Gossiping Guide to Wales.*



GEIRFA (Vocabulary).

TRACHWANT YN CAEL EI GOSBL, avarice punished.	GWENWYNO, to poison.
CEWYDEYN, tramp.	Y LLALL, the other.
PWES A'I LON'D O, a purse full of.	DYCHWELIAD, return.
PENDERFYNWYD, it was decided; determined; resolved.	Y BYDDAI, might be.
RHANU, share; divide.	A'R BWYD WEDI EI WENWYNO, with the poisoned food.
CYNWYSIAD, contents.	TARAWODD, struck.
YN GYFARTAL, equally.	EGNI, might.
EU BOD WEDI DYFOD, they had become.	AR AMRANTIAD, in an instant.
CYFOETHOG, rich; wealthy.	LLOFRUDD, murderer.
GAN EU BOD EISOES, as they were already.	CORPH MARW, a dead body; corpse.
NEWYNOG, hungry.	EFFEITHIAU, effects.
CYFAGOS, neighbouring.	YMYL Y FFORDD, wayside; roadside.
A RHAN, with some; with a part.	GWEDDOW, widow.
CYDYMAITH, companion.	YN FFODUS, fortunately; happily.
GWEDDILL, remainder.	YMDEITHYDD, traveller.
TRYSOR, treasure.	

33.—Cymry Rhydychen.

YN Rhydychen, gwneir tipyn o ddifyrwech o'r Cymry sydd yn tyru i Goleg yr Iesu, o herwydd eu bod bron oll o'r enw Jones. Ychydig amser yn ol, daeth dyn dyeithr at ystafell y drysor, a chymerodd yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt:—

Y dyeithr:—A fyddwch chwi mor garedig a dangos i mi ystafelloedd Mr. Jones?

Y drysor:—Y mae deugain Mr. Jones yn y Coleg, syr.

Y dyeithr:—Y dyn wyf fi am weled ydyw Mr. Dafydd Jones.

Y drysor:—Y mae ugain Mr. Dafydd Jones yn y Coleg, syr.

Y dyeithr:—Y mae gan Mr. Dafydd Jones, fy nghyfaill i. wallt coch.

Y drysor:—Y mae chwech Mr. Dafydd Jones â gwallt coch yn y Coleg, syr.

Y dyeithr (mewn anobaith):—Y mae hyn yn rhyfedd iawn. Gofynnodd y Mr. Dafydd Jones yma i mi ddyfod i gael potelaid o win gydâg ef.

Y drysor:—Paham na fuasech yn dweyd hyny ar y dechreu, syr? Yr ail ddrws ar y dde, ar y llawr cyntaf. Y mae y Jones's eraill i gyd yn ddirwestwyr.

GEIRFA (Vocabulary).

BHYDYCHEN, Oxford,	Y DYEITHR, the stranger.
GWNEIR, is made; is got at the expense of.	A DANGOS, as to show.
CYMRY, Welshmen.	MEWN ANOBAITH, in despair.
TIPYN O DDIFYRWCH, some amusement; sport.	RHYFEDD, strange; odd.
TYBU, crowd.	POTELAID, a bottle.
COLEG YR IESU, Jesus College.	AR Y DDE, on the right.
YSTAFELL Y DEYSOL, the porter's room; lodge.	DIRWESTWYR, abstainers.
YMDDIDDAN, conversation.	

EXERCISE. — Write sentences from: — Corddi (*churn*, V.); byddai (*churn*, N.); hufen (*cream*); llaeth enwyn (*butter milk*); mair (*whey*); caul (ceuled) llo (*rennet*); ceulfraen (*curds*); cunog (ystwe) (*milk-pail*).

34.—Gwerthu Ceffyl.

YR oedd gan wladwr geffyl yn codi yn bum' mlwydd oed. Ar ddydd ffair neillduol gosododd y cyfrwy ar ei gefn, ac aeth ag ef i'r dref gyfagos gyda'r bwriad o'i werthu. Marchogai ei berchenog ef drwy'r ystryd, ac edmygai pawb ymddangosiad rhagorol y ceffyl. Yr oedd y porthmyn Seisnig yn ei ganlyn i bob twll a chornel, ac yn ei hoffi yn fawr. O'r diwedd,

penderfynodd rhyw Sais ei brynu am unrhyw bris; ac archodd i'r ffermwr ddisgyn oddiarno. Ufuddhaodd yntau yn union. Ar ol llawer o ddadleu, cytunasant am y pris. Mewn atebiad i holiadau y prynwr, dywedodd y gwladwr, "Chwi synech pe gwelech ef yn tynu." Cafodd y Sais ei foddloni yn fawr gyda'r geiriau hyn. Aeth y ffermwr adref a llon'd ei boced o arian melynion, ac yr oedd yn falch iawn tra yn myned adref, nad oedd wedi gwerthu y fath geffyl i gymydog. Yn mhen tro wedi hyny talodd y Sais ymweliad â'r dref drachefn, a chyfarfyddodd â'r ffermwr yno. "Oni ddywedasoch fod y ceffyl yn un da i dynu?" gofynai y porthmon. "Naddo," ebai'r ffermwr, "ni wnes i ond dweyd y buasech yn synu pe gwelsech ef yn tynu. Buaswn inau yn synu hefyd."

GEIRFA (Vocabulary).

GWLADWR , a countryman.	LLAWER O DDADLEU , much arguing.
YN CODI , rising.	CHWI SYNECH , you would wonder; be surprised.
NEILLDUOL , particular; certain.	PE GWELECH EF , if you saw; were to see.
CYFRWY , saddle.	CAFODD EI FODDLONI , was pleased.
BWRIAD , intention.	A LLON'D EI BOCED , with a pocketful
MARCHOGAI , rode.	ARIAN MELYNION , golden sovereigns.
EDMYGAI , admired.	CYMYDOG , neighbour.
YMDDANGOSIAD , appearance.	YN MHEN TRO , sometime.
RHAGOROL , excellent.	TALODD YMWELIAD A'R DREF , paid a visit to the town; visited the town.
PORTHMYN , jockeys.	ONI DDYWEDASOCH , did you not say.
TWLL , hole; nook.	TYNU , draw.
CORNEL , corner.	"NADDO," "no."
HOFFI , like.	NI WNES OND DWEYD , I only said.
AO YN EI HOFFI , and liked him.	Y BUASECH YN SYNU , you would have been surprised.
UNEHYW BRIS , any price.	BUASWN INAU YN SYNU , I should have been surprised.
ARCHODD , told; asked; commanded.	PE GWELSECH , if you had seen.
DISGYN ODDIARNO , descend from him.	

35.—Breuddwyd Rhyfedd.

MEWN pentref gwledig wrth droed un o fynydd-oedd Cymru, yr oedd yn byw unwaith deulu bychan yn cael ei wneyd i fyny o dad a mam, a geneth fechan. Yr oedd y tad yn ddyn meddw, ac yn gwario ei holl enillion yn nhafarn y pentref. O herwydd meddwdod y tad, yr oedd y fam a'i merch fach yn welw eu gwedd, ac yn garpiog eu gwisg. Un noson, cafodd y tad freuddwyd pur hynod. Breuddwydiodd ei fod yn gweled tair o gathod (gathau, S.W.) yn d'od i'w gyfarfod ar yr heol. Yr oedd un o'r cathod yn ddall, y llall yn deneu, a'r drydedd yn dew iawn. Pan ar foreu-fwyd tranoeth, adroddodd y breuddwyd, a gofynodd i'w wraig ei ddeongli gan ei fod wedi anesmwytho cryn lawer ar ei feddwl. Nis gallai y fam ei ddeongli. Yna gofynodd i'w ferch fechan a allai hi ddeongli y breuddwyd. "Dyma y dehongliad," meddai yr eneth fechan, "chwi yw y gath ddall; mam yw y gath deneu, a gwraig y dafarn lle yr ydych chi yn gwario eich arian yw y gath dew." Bu y breuddwyd a'i ddeongliad yn foddion i wneyd dirwestwr selog o'r tad meddw.

GEIRFA (Vocabulary).

WRTH DROED, at the foot.

BREUDDWYD, dream.

GWLEDIG, country.

YE OEDD YN BYW, there lived.

YN CAEL EI WNEYD I FYNY, consisting.

TEULU BYCHAN, small family.

GENETH FECHAN, little girl.

MEDDW, drunken.

AC YN GWARIO, and spent.

EI HOLL ENILL, all his earnings.

BREUDDWYDIODD, he dreamt.

CYFARFOD, meet.

DALL, blind.

TENEU, thin.

BOREUFWYD, breakfast.

TRANOETH, next day.

ADRODDODD, told.

DEONGLI, to interpret; to say what it is.

ANESMWYTHO, prey.

CRYN LAWER, a good deal.

TAFARN Y PENTREF, village
tavern; inn.

O HERWYDD, on account of.

MEDDWDOD, drunkenness.

GWELW EU GWEDD, pale face.

CARPIOG EU GWISG, ragged.

SELOG, zealous; warm; hearty.

PUR HYNOD, very (or) somewhat
remarkable.

MEDDWL, mind.

GOFYNODD IDDI, he asked her.
(Never say "he asked to her.")

A ALLAI HI, if she could.

DEONGLIAD, interpretation; explan-
ation.

GWEAIG Y DAFARN, landlady.

BU, were.

DYMA, this is.

MODDION, means.

36.—Rowland Mill.

YR oedd Rowland Hill yn awyddus i bregethu er pan oedd yn fachgen bach. Yr oedd ei frawd, Richard, weithiau yn pregethu, ond yr oedd eu tad, Syr Rowland, yn anfoddlawn iawn iddynt. Un prydawn tēg yn yr hâf, gwelai yr hen foneddwr dyrfa fawr, a chlywai lais clir ei fab Rowland ar odre y parc. Yna, galwodd ar Richard, a gofynodd iddo fyned i edrych pa beth oedd yno. "Rowland sydd yn pregethu i bobl y gymydogoeth," meddai Richard. "Ewch a dywedwch wrtho am ddyfod ataf fi," ebai y tad. Pan ddygodd Richard y gorchymyn hwn i'w frawd, ufuddhaodd Rowland ar unwaith, ond cym-erodd Richard ei le. Aeth Rowland at ei dad, ond tra yr oedd yn derbyn ei gerydd am ei ymddygiad, dywedodd Syr Rowland, "Mi glywaf ryw un eto yn pregethu. Pwy yw hwna?" "Yr wyf yn meddwl, syr, mai Richard ydyw yn gorphen fy mhregeth i," ebe Rowland. Anfonodd y tad Rowland i ddweyd wrth Richard am ddyfod ato ar unwaith, ond erbyn hynny yr oedd Richard wedi gorphen ei bregeth, ac yr oedd y dyrfa wedi ymadael.

GEIRFA (Vocabulary).

AWYDDUS, desirous.
ER PAN, since.

DYGODD, brought.
GORCHYMYN, command.

WEITHIAU, sometimes.	YMDDYGLAD, conduct.
ANFODDLAWN, unwilling.	PREGETH, sermon.
LLAIS CLIR EI FAB ROWLAND, his son, Rowland's, clear voice.	ANFONODD, sent.
PARC, park.	OEDD WEDI YMADAEL, had gone; dispersed.
ROWLAND SYDD YN PREGETHU, it is Rowland that is preaching.	

EXERCISE.—Give the English of :—Aradr, ôg (oged), swch, cwlltyr, cŵys, grwn, talar (pentir), ystod o wair, adladd, rych; nodwydd, gwniadyr, gwrym (gwniad), gwniadwraig (gwniadyddes), edeu, dillad, brethyn, gwaell (*pl.* gweyll), nodwydd edeu wlan, gwnïo, gweu hosanau, gweu brethyn; gwâl ysgyffarnog; talcen tŷ; milgi; llosg eira (malaith).

37.—Y Ci a'i feistr bach,

ANFONWYD bachgen i dref i brynu bwyd. Yr oedd yr eira yn gorwedd yn drwchus ar y ddaear, ac yr oedd eto yn bwrw eira; ond gwyddai y bachgen ei ffordd yn dda, ac nid oedd ofn arno. Aeth i siop, prynodd y bwyd, a chychwynodd adref yn ddioed. Yr oedd yr eira yn dyfod i lawr yn dew, ac yn ddisymwth, collodd y negeswr bach ei ffordd, a syrthiodd i luwch eira. Cysgodd yno yn drwm. O'r diwedd, deffrowyd ef gan deimlad o bwysau arno, a chlywai awel gynnes yn dyfod i'w wyneb. Wedi agor ei lygaid, gwelai gi mawr ei dad yn edrych arno yn syn. Pan wybu ei fod yn fyw cyfarthodd a dechreuodd ysgwyd ei gynffon gan lawenydd. Yna dechreuodd lyfu (lluo) ei ddwyllaw, a gweithiodd a'i holl nerth i'w gael i fyny. Ar ol ymdrech galed llwyddodd i'w adferu. Gan nad oedd y bachgen yn dychwelyd, yr oeddynt wedi anfon y ci i chwilio am dano, ac yn awr

dyma y ddau, sef y ci a'i feistr bach, yn dyfod adref gyda'u gilydd. Nid oes eisiau i mi ddweyd wrthych i'r ci hwn ddyfod yn ffafryn mawr yn y teulu yma byth er hyny.

GEIRFA (Vocabulary).

OEDD YN GORWEDD, lay.	CLYWAI, felt.
YN DRWCHUS, thick.	AWEL GYNES, warm breath.
DAEAB, ground.	YN SYN, straight; intently.
BWRW EIRA, to snow.	GWYBU, knew.
NID OEDD OFN ARNO, he was not afraid.	LLAWENYDD, joy.
CYCHWYNODD, started.	LLYFU (lluo), lick.
YN DDIOED, at once; without delay.	YMDRECH, struggle.
YN DEW, thick.	ADFERYD, revive; bring to life.
NEGESWE, messenger.	DYMA Y DDAU YN DYFOD, here are the two coming.
LLUWCH EIRA, snow-drift.	SEF, namely.
YN DRWM, soundly.	GYDA'U GILYDD, together.
DEFFROWYD, was awaked; awakened.	FFAFRYN, favourite.
TEMLAD, feeling.	BYTH ER HYN Y, ever after that.
PWYSAU, weight.	

38. — Syr Philip Sydney.

UN diwrnod, dygwyd Spenser, y bardd enwog Seisnig, i dŷ Syr Philip Sydney. Nid oedd y ddau ddyn yn adnabod eu gilydd o'r blaen. Daliai y prydydd lyfr ysgrifenedig o'i ganeuon yn ei law, ac estynodd ef i'r marchog. Derbyniodd yntau y llyfr, a dechreuodd ei ddarllen drosodd. Tarawyd ef ar unwaith gan y llinellau tlyision, a dangosodd lawenydd mawr wrth ganfod y fath allu. Wedi darllen rhai penillion, trôdd at ei oruchwyliwr, a dywedodd wrtho, "Rhoddwch haner can' punt i awdwr y penillion yma." Parhâi Syr Philip i ddarllen, a hoffai y penillion nesaf yn fwy eto. Dywedodd wrth ei oruchwyliwr, "Dyblwch y swm." Oedai y gwas gario allan orchymyn ei feistr gan ei fod yn meddwl mai cellwair yr ydoedd. Fel yr

oedd y darllenydd yn myned yn mlaen drwy y penillion, yr oedd ei haelioni yn cynyddu o hyd. Yna, gwthiodd ei oruchwyliwr ymaith oddiwrtho, gan ddweyd, "Yr wyf yn rhoddi dau gant o bunau iddo. Brysiwch! brysiwch!! canys os darllenaf ychwaneg, temtir fi i roddi fy holl eiddo i'r awdwr." Bu Syr Philip Sydney cystal a'i air, a thalodd y ddau can' punau i'r bardd.

GEIRFA (Vocabulary).

BAEDD ENWOG , famous bard; celebrated bard.	AWDWR , author.
LLYFR YSGRIPENEDIG , written copy; book.	PARHAI , continued.
CANEUON , songs.	DYELWCH , double.
MARCHOG , knight.	OEDAI , delayed; put off.
DROSODD , over.	CELLWAIR , joke.
TARAWYD , was struck.	MAI CELLWAIR OEDD , that he was joking.
LLINELLAU TLYSION , fine verses.	HAELIONI , liberality.
WRTH GANFOD , at finding.	CYNYDDU , increase.
GALLU , ability	BRYSIWCH , make haste.
PENILLION , stanzas; verses.	TEMTIR FI , I shall be tempted.
TRODD , turned.	EIDDO , property.
GORUCHWYLIWE , steward.	CYSTAL A'I AIR , as good as his word.

39.—Cynghor Cyfreithiwr.

YR haf diweddaf, tra yn aros ar làn y môr yn yr Abermaw, cyfarfyddais â boneddwr o Lundain, yr hwn oedd yn lletya yn ngwesty y Llew Du. Yr oeddym lawer yn nghwmpeni ein gilydd, ac adroddodd i mi yr hanes dilynol. "Yr oedd ar gyfaill i mi eisieu myned o'r brif ddinas i bentref cyfagos. Aeth at ddyn, yr hwn oedd yn hurio (llogi) ceffylau, a chytunodd am geffyl i'w gario i'r lle am chweugain. Pan ddychwelodd, mynodd y perchenog gael chweugain arall am fod y ceffyl wedi ei gario yn ol hefyd. Gorfodwyd fy nghyfaill i dalu, ond yn hollol yn

erbyn ei ewyllys. Cynghorwyd ef i fyned at gyfreithiwr i gael gwybod beth i'w wneyd dan yr amgylchiad. Gweithredodd yntau yn ol cyngor y cyfreithiwr fel yma. Aeth at y llogwr ceffylau eilwaith, a gofynodd am geffyl i'w gludo i Windsor, a chytunodd âg ef am bunt. Yna, marchogodd i Windsor, a gadawodd y ceffyl yno, gan ddychwelyd gyda'r trên. Pan gyrhaeddodd Lundain, aeth yn syth i swyddfa y llogwr, a thalodd y bunt iddo. 'Pa le mae'r ceffyl?' ebe'r perchenog. 'Y mae yn Windsor,' oedd yr ateb, 'ni chytunais â chwi, ond i fyned yno yn unig.'"

GEIRFA (Vocabulary).

CYNGOR, advice. (<i>Noun.</i>)	AM FOD Y CEFFYL, as, &c.
CYNGHORI, advise. (<i>Verb.</i>)	GORFODWYD, was forced; compelled.
TRA YN AROS, whilst stopping.	YN HOLLOL, quite; wholly.
AR LAN Y MOR, at the sea shore.	EWYLLYS, will.
YN YR ABERMAW, at Barmouth.	I GAEL GWYBOD, to know.
CYFARFYDDAIS A, I met.	BETH I'W WNEYD, what to do.
LLETYA, lodge.	GWEITHREDODD, he acted.
GWESTY, hotel.	YN OL, according to.
CWMPEINI EIN GILYDD, each other's company.	LLOGWR CEFFYLAU, horse hirer.
ADRODDODD, told; related.	CLUDO, carry.
YR OEDD EISIAU ARNO, he wanted.	MARCHOGODD, rode.
PRIF-DDINAS, Metropolis; i.e., London.	GYDA'R TREN, by train.
HURIO, hire.	CYRHAEDDODD, reached.
CYTUNODD, agreed; settled.	SWYDDFA, office.
CHWEUGAIN, ten shillings.	NI CHYTUNAIS A CHWI OND I FYNED
MYNODD, insisted (<i>on</i>); would have.	YNO YN UNIG, I agreed with you to go there only.

40.—Ellis bach.

YR oedd awdwr Seisnig enwog yn arfer ymweled o bryd i bryd â theulu llafurwr mewn pentref bychan ar fin (lànau) Llyn y Bala. Yr oedd yno fachgenyn bychan craff, o'r hwn yr oedd yr ymwelydd yn neillduol hoff. Wedi absenoldeb o rai wythnosau, efe

a ddaeth yn ol ei arfer, ac wedi gweled yr un bychan yn eisiau, efe a ddywedodd wrth y fam, "P'le mae Ellis?" Gyda dagrau yn ei llygaid, hi adroddodd yr ystori, pa fodd, ychydig wythnosau yn flaenorol, y cymerwyd ei hanwylyd i'w orphwysfa. Yr oedd ei frawd hynaf yn lladd gwair yn y cae gerllaw, ac aeth Ellis ato yn araf a thawel gan gymeryd arno ei ddychrynu. Ond ni welodd y brawd hynaf ef. Fel yr ymlusgai o'r tu ol, ysgubodd y bladur oddiamgylch a thorodd gluniau y bachgen bach. Ymaflodd ei frawd ynddo mewn brys a chlododd ef i'r tŷ, ac anfonwyd am y meddyg. Gorweddodd Ellis dros y nos yn dawel ar y gwely, ond fel y torai y wawr, dechreuodd ganu mewn llais crynedig, rai o'i hoff emynau. Pan gododd yr haul, yr oedd Ellis yn ddystaw, am ei fod wedi myned i'r lle y mae'r angylion yn wastad yn canu. Fel hyn, pan y mae ein hysgolheigion wedi eu gwasgaru yn mhell dros wyneb y ddaear, mewn blynyddoedd i ddyfod, y mae'r emynau a ddysgasant yn yr ysgolion Sul yn dyfod yn ol iddynt fel bara wedi ei daflu ar wyneb y dyfroedd.

GEIRFA (Vocabulary).

YN ARFER	TEULU LLAFURWR, used, from time to time, to visit a labourer's family.	GAN GYMERYD AENO, pretending.
GLANAU, shores.		YN ARAF, slowly.
CRAFF, sharp; keen.		EI DDYCHRYNU, to frighten him.
YMWELYD, visitor.		YMLUSGAI, crept.
YN NEILLDUOL HOFF, particularly fond.		YN DAWEL, quietly.
ABSENOLDEB O RAI WYTHNOSAU, some week's absence.		YSGUBODD, swept.
YN OL EI ARFER, as usually.		PLADUR, scythe.
GWELED YN EISIAU, to miss.		YMAFLODD, seized; took hold of.
DAGEAU, tears.		WAWR, dawn.
PA FODD, how.		CRYNEDIG, broken.
HANWYLYD, darling.		HOFF, favourite.
GORPHWYSFA, rest.		ANGYLION, angels.
		GWASGARU, to scatter.

HYNAF, eldest.
LLADD GWAIR, to mow hay.
GERLLAW, near.

EMYNAU, hymns.
WEDI EI DAFLU, thrown.
GWYNEB, surface.

41.—Peryglon Cenadwr.

DYWED cenadwr :—“Tra yn hela ar ol trychfilod, aflonyddais greadur o ymddangosiad dyeithr oddeutu maint dafad, o liw coch-ddu, gyda chynffon hir, coesau byrion ond hollol ddyeithr i mi. Cymerais fy nryll o law y bachgen, a saethais y creadur yn y fan. Rhedodd fy ngwas ymaith wedi ei ddychrynu bron hyd farw. Yr oeddwn wedi lladd llew ieuanc. Rhedai y chwys fel pŷs dros wyneb y llanc. Troais inau hefyd i redeg, ond wedi myned ychydig gamrau, clywn ruad dychrynlyd ar fy sodlau, canys yr oedd llewes o faintioli aruthrol yn gwneyd am danaf. Er fod genyf ddryll âg ergyd ynddo, ymddangosai i mi ei bod ar ben arnaf. Yr oeddwn yn gobeithio y gwnai y llewes aros ychydig gyda'i chenaw marw. Ond pan edrychais yn ol, yr oedd nid yn unig y llewes, ond y llew hefyd yno. Ni chymerasant sylw o'r gelain farw, ond daethant ar fy ol i â'u holl egni. Gwelais mai ynyfyd oedd i mi redeg. Sefais a phenderfynais wynebu y llewod. Troais yn eofn arnynt; safasant hwythau o'm blaen. Yr oeddynt yn rhuo yn ddychrynlyd, yn chwifio eu cynffonau, ac yn ymddangos yn ddig iawn, a hyny o fewn ychydig latheni i mi.—*Fw barhau.*

GEIRFA (Vocabulary).

PERYGLON, dangers.
CENADWR, missionary.
TRYCHFILOD, insects.
AFLONYDDAIS, I disturbed.
YMDDANGOSIAD, appearance.
MAINT, MAINTIOLI, size.
COCH-DDU, dark brown.

SODLAU, heels.
ARUTHROL, very great; prodigious.
AC ERGYD YNDDO, loaded.
EI BOD AR BEN, to be all up.
GWNAI AROS, would stop; remain.
YCHYDIG, a little.
CENAW, whelp.

HOLLOL DDYEITHR, quite strange.	SYLW, notice.
DRYLL, gun.	CELAIN FARW, corpse.
YN Y FAN, on the spot.	YNFYD, foolish.
WEDI EI DDYCHRYNU, frightened.	PENDERFYNAIS, I determined; resolved.
CHWYS, sweat; perspiration.	YN EOFN, bravely.
CAMRAU, steps; paces.	YN CHWIFIO, lashing.
RHUAD, roar.	DIG, angry.
DYCHRYNLLYD, terrible.	

Peryglon Cenadwr.—*Parhad.*

“Yr oeddynt, yn wir, yn bâr hollol frenhinol. Cefais yn awr amser i’w harolygu. Yr oeddynt o liw tywodlyd—y rhywogaeth mwyaf ffyrnig; ac nid oedd hyny yn gwella fy sefyllfa. Yr oedd yn olygfa ddyddorol. Yr oeddym fel delwau, ond fod cynffonau y bwystfilod yn chwifio yn ffyrnig. Yno y safem wyneb yn wyneb, fel pe mewn petrusder beth i’w wneyd. Nis gallaf ddweyd yn gywir beth basiai yn eu meddyliau hwy, ond dichon y tybient nad oedd yn ddoeth i ymosod ar greadur nad oeddent erioed wedi gweled ei gyffelyb o’r blaen. Nis gallaf ddweyd ychwaith pa hyd y buom yn sefyll wyneb yn wyneb. Ymddangosai mynydau fel oriau. Yr oeddwn yn gweled y byddai yn annoeth i mi saethu arnynt, ond penderfynais gadw tipyn o sŵn i weled yr effaith. Felly estynais fy mreichiau i’r awyr, neidiais, dawnsiais, gan waeddi fel gwallgofddyn.—*I’w barharu.*”

GEIRFA (Vocabulary).

YN BAR HOLLOL FRENHINOL, quite a royal pair.	PETRUSDER, doubt.
AROLYGU, examine.	YN GYWIR, exactly.
TYWODLYD, sandy.	DICHON, perhaps.
RHYWOGAETH, species; kind.	Y TYBIENT, they thought.
MWYAF FFYRNIG, most savage.	I YMOSOD AR, to attack.
GWELLA, improve.	YCHWAITH, too,
SEFYLLFA, situation.	ANNOETH, unwise.
GOLYGFA, sight.	EI GYFFELYB, his like; a similar one.

DYDDOROL, interesting.
 DELWAU, statues.
 OND FOD, except that.
 BWYSTFLOD, beasts.
 FEL PE, as if.
 PETRUSDER, doubt

TIPYN O SWN, a little noise.
 EFFAITH, effect.
 FELLY, so.
 ESTYNAIS, I stretched.
 GWALLGOFDDYN, madman.

EXERCISE.—Write sentences from:—Trwsio (*mend*); morthwyl (*hammer*); llif (*saw*); llif (*flood*); hoelion (*nails*); brodorion (*natives*); iach (*healthy*); cyfoethog (*wealthy*); derbyn (*receive*); credu (*believe*); rhysgl (*bark*); corsydd (*swamps*); serth (*steep*).

Peryglon Cenadwr.—*Parhad.*

“Synodd y llewod ataf gymaint fel y rhedasant i'r prysglwyni, fel pe buasant wedi eu saethu, ac nis gwelais hwynt mwyach. Nid oeddwn yn foddllawn yn awr i fyned ymaith heb gorph y cenaw oeddwn wedi saethu. Felly cydiais yn ei draed ol, a dechreuais ei lusgo ar fy ol. Yna, codais ef ar fy ysgwydd, ond edrychwn yn ol-yn fynych rhag i'r rhieni ddyfod i hawlio yr ysglyfaeth, oblegid ni fuaswn mor anonest a'i gadw pe daethent o ddifrif i'w hawlio. Cefais allan yn fuan fod y cenaw yn drymach nag oeddwn wedi feddwl. Felly, gwaeddais ar y llanc, yr hwn oedd yn y pellder draw. Bwriadai fyned i'r gwersyll i nol dynion i ddyfod i chwilio am fy ngweddillion. Perodd celain y cenaw ddychryn mawr yn mysg y brodorion. Synent fy mod wedi beiddio lladd 'plentyn y llew,' oblegid yr oedd hyny yn fwy peryglus na lladd y llew ei hun.”

TRANSLATE.—Ni fuaswn mor anonest a'i gadw pe deuent i ymofyn am dano o ddifrif. Nid oedd yr

eneth mor gref a'i chwaer. Perodd celain y cenaw
ddychryn mawr.

GEIRFA (Vocabulary).

SYNODD, wondered.	MOR ANONEST A'I GADW, so dishonest as to keep it.
PRYSGLWYNI, bushes.	O DDIFRIF, in earnest.
BUASENT WEDI EU SAETHU, had been shot.	DAETHENT, had come.
HEB GORPH Y CENAW, without the whelp's body.	TRYMACH, heavier.
TRAED OL, hind feet.	DEUENT, came.
LLUSGO, to drag.	PELLDER DRAW, far distance.
CODAIS, raised; lifted.	BWRIADAI, he intended.
YSGWYDD, shoulder.	GWERSYLL, camp.
YN FYNICH, often; frequently.	GWEDDILLION, remains.
RHAG IDDYNT DDYFOD, lest they should come; might come.	CELAIN, dead body; corpse.
HAWLIO, to claim.	DYCHRYN MAWR, a great fright.
YSGLYFAETH, booty.	YN MYSG, amongst.
	BEODORION, natives.
	BEIDDIO, dare.

EXERCISE.—Translate:—Yr oedd mor oer neithiwr fel y rhewodd y dŵr. Yr oedd y creadur mor fawr, fel nas gallaswn ei gario. Y mae y llewes mor ffyrnig a'r llew. Nid yw ef mor gryf a'i chwaer.

42.—Yr Arholiad.

Y MAE yr hanesyn hwn yn eithaf gwir, a chym-
erodd yr hyn adroddir yma le mewn ysgoldy
bychan ar làn yr afon Teifi. Yr oedd y plant wedi
bod yn gweithio yn ddiwyd drwy y flwyddyn i
ymbarotoi ar gyfer dydd yr arholiad. O'r diwedd,
daeth y diwrnod pwysig hwnw, ac yr oedd yr arholwr
yn ei hwyliau goreu. Atebai y plant yn rhagorol,
a hawdd oedd gwybod eu bod yn ateb wrth ei fodd.
Eisteddai y boneddwr mewn cadair a'r dosbarth o'i
flaen. Yr oedd yn arholi y trydydd safon mewn
daearyddiaeth. Ychydig cyn terfynu ei waith, gof-

ynodd iddynt y cwestiwn yma, "Am beth y mae Sheffield yn enwog?" Ni estynodd neb ei law allan, canys ni wyddent yr atebiad, er fod y gofyniad yn rhwydd ddigon. Safai yr athraw cynorthwyol tu cefn i'r arholwr, a gwnaeth arwydd i un bachgen bach a'i gwelai drwy dynu ei law dros ei wyneb, a chymeryd arno shafio (eillio) yr ychydig flew oedd yno. Ar hyn, estynodd y bachgen bach ei law allan, a gofynodd yr arholwr amyneddgar iddo, "Beth ydyw yr ateb, fy machgen?" "*Whiskers*, syr," meddai y llanc ieuanc. Perodd hyn chwerthin iachus yn y dosbarth, ac ni allai yr arholwr lai na chwerthin gyda hwy.

GEIRFA (Vocabulary).

HANESYN, story.	ATEB WETH EI FODD, pleased him with their answers.
YR HYN ADRODDIR YMA, what is related here.	DAEALYDDIAETH, geography.
LAN, bank.	CYNOETHWYOL, assistant.
YN DDIWYD, diligently.	ARWYDD, sign.
YMBAROTI, to prepare.	CYMERYD ARNO, to pretend.
AR GYFER, for.	YCHYDIG FLEW, few hairs.
PWYSIG, important.	OEDD YNO, that were there.
ARHOLWR, inspector.	AMYNEDDGAR, patient.
YN EI HWYLLIAU GOREU, in the best of humours.	CHWERTHIN IACHUS, hearty laughter.
SAFON, standard.	NI ALLAI LAI NA CHWERTHIN, could not help laughing; could not but laugh.

43.—Androcles a'r Llew.

UNWAITH digwyddodd caethwas ddianc oddi wrth ei feistr, yr hwn oedd yn greulawn iawn wrtho, ac a ymguddiodd mewn coedwig. Yno fe gyfarfyddodd (gwrddodd) â llew. Yr oedd y dyn mewn ofn mawr, canys gwyddai nas gallai ddianc, ac nid oedd ganddo ddim i amddiffyn ei hun. I'w fawr syndod, yr oedd y llew yn dyfod i fynu ato mewn

dull cyfeillgar, gan ysgwyd (siglo) ei gynffon. Codai ei bawen i fynu, a gwnai arwydd fel pe yn gofyn am gynorthwy. Cymerodd y caethwas y bawen yn ei law, a gwelodd fod draen ynddi. Llwyddodd i gael y draen i ffwrdd, ac wedi hyny daeth y llew a'r caethwas yn gyfeillgar iawn a'u gilydd. Pasiodd rhai misoedd heibio, a dygai y llew fwyd i Androcles bob dydd, ond o'r diwedd daliwyd y caethwas, a chymerwyd ef yn ol at ei feistr. I'w gosbi am redeg ymaith dedfrydwyd ef i gael ei ddryllio yn ddarnau gan lew. Cadwyd y llew mewn cawell am ddiwrnodau heb fwyd i'w wneuthur yn newynog. Yna, gollyngwyd yn rhydd y bwystfil gwyllt ar Androcles, ond ni wnai ei niweidio ef o gwbl. Adnabu y llew Androcles, a gwelodd mai ei hen gyfaill ydoedd. Ar ol egluro pethau, cafodd Androcles faddeuant, a rhoddwyd y llew iddo yn anrheg.

GEIRFA (Vocabulary).

CAETHWAS, slave.	DYGAI, brought.
YMGUDDIODD, hid himself.	DEDFRYDWD, was sentenced.
OFN, fright.	I GAEL EI DDREZLLIO, to be torn.
AMDDIFFYN, defend.	YN DDARNAU, to pieces.
I'W FAWR SYNDOD, to his great surprise.	NIWEIDIO, injure; hurt.
DULL CYFEILLGAR, friendly manner.	CAFODD FADDEUANT, was forgiven.
PAWEN, paw.	YN ANRHEG, as a present.
DRAEN, thorn.	

44.—Myned i Lundain.

RHYW amser yn ol, penderfynodd hen ŵr a'i wraig fyned am dro i Lundain. Yr oeddynt wedi treulio y rhan fwyaf o'u hoes yn y wlad. Cyn cychwyn, derbyniasant ddigon o gynghorion gan eu cymydogion sut i ymddwyn, ac yn neillduol i ochelyd lladron Llundain. Er mwyn arbed traul, aethant

gyda'r trê'n rhad oedd yn cychwyn o'r orsaf agosaf. Aeth pob peth ymlaen yn dda hyd nes cyrhaeddasant Bedford, lle y safodd y trê'n rai mynydau. Meddylodd yr hen w'r fod ganddo ddigon o amser, ac aeth i'r ystafell fwyta i gael gwydriad o ddiod. Gwthiwyd ef gymaint gan y dorff fel y collodd y trê'n—yr unig beth a ofnai. Yr oedd yr *Express* i gyrhaedd yn mhen rhai mynydau, a gadawodd y gorsaf-feistr caredig iddo fyned gyda'r trê'n hwnw, ac felly bu yn alluog i gyrhaedd Llundain oddeutu ugain mynyd o flaen ei wraig. Edrychai yn awyddus am ei wraig pan gyrhaeddodd y tren rhad, ac ar ol llawer o chwilio daeth o hyd iddi. Yna rhuthrodd ati dan waeddi, "Beti, Beti, y mae yn dda genyf dy weled. Meddyliais ein bod wedi ein gwahanu am byth." Edrychodd Beti yn sarug arno gan gofio cynghor ei chymydogion, a dywedodd, "Ffwrdd a ti, walch. Paid a chwareu triciau Llundain â mi. Gadewais i fy hen w'r yn yr orsaf arall. Ac os na ai i ffwrdd ar unwaith, galwaf am heddeidwad i dy gymeryd i fyny."

GEIRFA (Vocabulary).

TRO, trip.

TREULIO, spend.

HOES, time.

DIGON O GYNGHORION, plenty of advice.

YN NEILLDUOL, particularly.

GOCHELYD, avoid.

ER MWYN ARBED, to save.

TREN RHAD, excursion train.

HYD NES, until.

CYRHAEDDASANT, reached.

YSTAFELL FWYTA, refreshment-room.

GWTHIWDYD, was pushed.

YN AWYDDUS, anxiously.

DAETH O HYD IDDI, he found her.

GWAHANU, separate.

YN SARUG, surly.

FFWRDD A TI WALCH, away with you rogue.

HEN WR, old man.



45.—Y Glowr.

MORGANWG yw gwlad y glo yn Nghymru, a gelwir y gweithwyr yn löwyr. Gweithia y glöwr yn galed lawr obry ganoedd o droedfeddi yn mherfeddion y ddaear wrth oleu ei lamp. Weithiau, y mae yn ei gwrwm, weithiau yn gorwedd ar ei gefn o ddiffyg lle. Y mae ei waith yn beryglus i'r eithaf. Ychydig yr ydym yn feddwl wrth ein tanau cynes yn y gauaf, am beryglon y glöwr dewr sydd yn tori y glo gwerthfawr i ni. Yn y pwll, lle treuliai y rhan fwyaf o'i oes, y mae nwy hylog (tanllyd), yr hwn sydd yn dyfod o'r glo. Ar adegau, y mae'r nwy yma yn cymeryd tân oddiwrth lampau y glöwyr, ac y mae yn firwydro fel pylor, gan chwalu pob peth oddi amgylch. Y mae amryw o'n glöwyr yn colli eu bywydau bob blwyddyn mewn damweiniau o'r natur yma. Yn y darlun, ar y tudalen gyferbyn, gwelir effeithiau difrifol y firwydriad.

Ambell waith, y mae nen y pwll yn syrthio i fewn, a chleddir amryw ddynion yn fyw am rai diwrnodau. Ond pan ddigwydda hyn, ceir dynion dewr yn barod i aberthu eu bywydau eu hunain trwy fyned i lawr i'r pwll i glirio'r ffordd. Gweithiant â'u holl egni ddydd a nos, ac yn ffodus, llwyddant yn aml i waredu eu cyd-weithwyr o grafangau angau.

GEIRFA (Vocabulary).

GLOWE, collier.	ODDI AMGYLCH, around.
YN GALED, hard.	DAMWEINIAU, accidents.
LAWE OBRY, far down.	O'B NATUR YMA, such as these.
PERFEDDION, bowels.	TUDALEN, page.
GOLEU, light.	CYFERBYN, opposite.
WEITHIAU, sometimes.	EFFEITHIAU, effects.
Y MAE YN EI GWRWM, he crouches down.	DIFRIFOL, sad.

DIFFYG LLE, want of space.

I'R EITHAF, in the extreme.

PERYGLON, dangers.

GWERTHFAWR, precious.

PWLL, pit; mine.

TREULIA, he spends.

NWY, gas.

HYLOSG, inflammable.

AR ADEGAU, at times.

FFRWYDEO, explodes.

PYLOB, powder.

GAN CHWALU, shattering.

FFRWYDRIAD, explosion.

AMBELL WAITH, sometimes.

NEN, roof.

CLADDU, to bury.

YN FYW, alive.

DIGWYDDA, happens.

ABERTHU, sacrifice.

TRWY FYNED, by going.

CLIRIO, to clear.

GWAREDU, to rescue.

CYD-WEITHWYB, fellow workers.

GRAFANGAU, jaws.

46.—Dyn balch.

YR oedd coegyn balch yn bwyta ei giniaw mewn gwesty parchus yn nhref Aberteifi. Yr oedd yno hefyd wrth y bwrdd liaws o'i gyfeillion. Yn eu mysg digwyddai fod amaethwr cyffredin o'r gymydogaeath, yr hwn a arferai fynychu y gwesty hwn bob dydd Sadwrn i gael ei giniaw. Yr oedd y gŵr balch yn adwaen yr amaethwr yn dda, ac nid oedd yn foddolawn iawn iddo eistedd hyd yn nod wrth yr un bwrdd âg ef. Wedi gorphen ei giniaw, cododd y gwladwr yn dawel heb aflonyddu dim ar neb, a pharotôdd i fyned allan o'r ystafell giniaw. Ond cyn iddo gyrhaedd y drws, gwaeddodd y coegyn ar ei ol mewn llais dirmygus, "Hei, John, dowch yma, y mae arnaf eisieu siarad â chwi." Ufuddhaodd yntau yn union deg, a cherddodd yn araf at ben y bwrdd lle yr eisteddai y coegyn, yr hwn a sisialodd y geiriau yma yn ei glust,—“Hoffwn gael gwybod pa mor bell y buasech wedi myned, pe na buaswn wedi eich galw yn ol.” Ar hyn safodd y gwladwr i fynu yn syth, heb ddangos ei fod wedi ei gynhyrfu yn y modd lleiaf, a dywedodd mewn llais hygryw, “Yn wir, Mr. Jones, nid wyf yn gwybod am neb yn y byd y

buaswn yn rhoddi benthg iddo yn gynt nag i chwi, ond i ddweyd y gwir i chwi, nid oes genyf lawer o arian yn fy llogell heddyw." Ar hyn, cochodd y coegyn at ei glustiau, ac yr oedd yr ystafell yn adseinio gan chwerthin y boneddigion eraill.

GEIRFA (Vocabulary).

COEGYN BALCH, fop; proud fellow.	YN UNION DEG, at once.
PARCHUS, respectable.	SISIALODD, whispered.
YN EU MYSG, in their midst.	PA MOR BELL, how far.
MYNYCHU, frequent.	Y BUASECH WEDI MYNED, you would have gone.
ADWAEN, to know.	PE NA BUASWN WEDI EICH GALW, if I had not, &c.
HYD YN NOD, even.	CYNHYRFU, disturb.
GWLADWR, countryman.	YN Y MODD LLEIAF, in the least.
AFLONYDDU, to disturb.	HYGLYW, clear.
HEB AFLONYDDU DIM AR NEB, without disturbing anybody.	RHODDI BENTHYG, to lend.
PAROTODD, prepared.	COCHODD, blushed.
YSTAFELL GINIAW, dining room.	ADSEINIO, echoed.
HEI, hey.	CHWERTHIN, laughter.

47.—Y Ci a'r Blaidd.

UN boreu rhewllyd yn y gwanwyn, cyfarfyddodd blaidd teneu, yn ddamweiniol, â chi tew braf. Synai y blaidd fod y ci mor dew, a chymerodd yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt:—

Y blaidd:—Sut yr wyt yn cyfrif dy fod yn edrych mor dda? Beth wyt yn fwyta? Yr wyf fi yn gryfach na thi, ac yr wyf fi bron a marw o newyn yn feunyddiol.

Y ci:—Ti elli fwynhau yr un breintiau os gwasanaethi fy meistyr yn ffyddlon fel myfi.

Y blaidd:—Beth ydyw y gwasanaeth?

Y ci:—Gwarchod y porth yn ystod y dydd a'r nos, a chadw y tŷ rhag lladron.

Y blaidd:—Dyma fi yn barod i hyny; yr wyf yn gyfarwydd â'r gwlaw, a'r eira, a'r cenllysg (cesair), canys yr wyf yn arwain bywyd truenus yn y goedwig, y corsydd, a'r rhosydd.

Y ci:—Tyred (dere) gyda mi (fi).

Dechreusant y daith gyda'u gilydd, ond tra yn myned ar y ffordd, gwelodd y blaidd farc ar wddf y ci. "Beth sydd wedi achosi hwna?" meddai.

Y ci:—Ambell waith y maent yn fy nghlymu yn yr ysgubor wrth gadwyn i mi fod yn llonydd yn ystod y dydd, fel y byddwyf yn fwy gwyliadwrus yn y nos. Yn yr hwyr, tynir y gadwyn ymaith fel y gallwyf redeg oddiamgylch lle mynwyf. Y maent yn cario bara i mi. Y mae meistr yn fy mhorthi âg esgyrn oddi ar ei fwrdd; y mae y gweision yn rhoddi tameidiau blasus i mi. Fel yma yr wyf yn llwyddo i gael bwyd da, ac yr wyf yn arwain bywyd cysurus.

Y blaidd:—Eithaf da; ond a oes genyt ryddid i ddyfod allan pryd y myni.

Y ci:—Nid yn wastad.

Y blaidd:—Fy nghyfaill anwyl, os ydyw pethau felly, mwynha dy wleddoedd; ni wnafr werthu fy rhyddid pe baet yn cynyg teyrnas gyfan i mi.

GEIRFA (Vocabulary).

BLAIDD, wolf.	AMBELL WAITH, sometimes.
YN DDAMWEINOL, by accident; accidentally.	CLYMU, to tie.
SYNAI, wondered.	YSGUBOR, barn.
SUT YR WYT YN CYFRIF, how do you account.	GWYLIADWEUS, watchful.
YN FEUNYDDIOL, always; constantly.	LLE MYNWYF, where I will.
BREINTIAU, privileges.	PORTH, to feed.
OS GWASANAETHI, if you serve.	BLASUS, savoury.
GWARCHOD, watching.	BYWYD CYSURUS, happy life.
PORTH, gate.	LLETY CYSURUS, comfortable lodgings.

CENLLYSG, hail ; hailstorm.
 TRUENUS, miserable.
 COESYDD, swamps ; bogs.
 RHOSYDD, moors ; banks.

RHYDDID, liberty.
 GWLEDDOEDD, feasts.
 CYNYG, to offer.
 TEYENAS GYFAN, a whole kingdom.

48.—Y Berllan Afalau.

YR oedd boneddwr yn byw yn agos i Lundain yn berchen perllan fawr. Yr oedd yn enwog am ei garedigrwydd a'i haelioni i'r tlawd. Nid pell o gartref y boneddwr yr oedd dyn o gymeriad amheus yn byw, a drwgdybid ef o dori i fewn i'r berllan 'nawr ac yn y man yn ystod y nos. Un noswaith oleu leuad braf, aeth y lleidr dros y môr i berllan ei gymydog. Cariai sach wâg dan ei gesail gan obeithio ei llenwi â'r ffrwythau addfed. Yr oedd digon o afalau cochion brâf yno, ac yn fuan yr oedd ar fedr dychwelyd yn ol wedi llenwi ei sach. Ond nid oedd yn hawdd dringo y wâl yn awr a'r sach afalau ar ei ysgwyddau. Gwelodd ysgol yn ei ymyl, a gosododd hi yn erbyn y môr. Pan oedd yn dringo i fyny, daeth y ci, a gafaelodd ynddo gerfydd ei ddillad. Yn yr ymdrech, collodd y lleidr un o'i esgidiau. O'r diwedd, llwyddodd i gael ei hun dros y môr, ond nid heb adael ar ei ol ddernyn mawr o'i lodrau yn safn y ci. Yna cyfarthodd *Sambo* yn uchel (canys dyna oedd enw y ci), a deffrodd ei feistr. Hawdd oedd canfod pwy oedd y lleidr oddiwrth y dernyn brethyn a'r esgid. Aeth yr heddgeidwad i chwilio tŷ y dyn oeddent yn ddrwgdybio, a chafwyd yno yr afalau. Cymerwyd ef i garchar i aros ei brawf. Dydd y prawf a ddaeth, a chyfaddefodd ei bechod, ac erfyniai am drugaredd. Cynygiai dalu ddwywaith drosodd am yr afalau, ond dedfrydwyd ef i gael ei garcharu

gyda llafur caled. Oddiwrth yr hanes uchod dysgwn beidio cymeryd eiddo pobl eraill.

GEIRFA (Vocabulary).

PERLLAN, orchard.	YSGOL, ladder.
YN BERCHEN, having, owning; who owned.	SACH, sack.
ENWOG, noted; well-known.	YN EI YMYL, near him; by his side.
HÆLIONI, liberality.	LLODEAU, trousers.
CYMERIAD AMHEUS, doubtful character.	CANFOD, find out.
DRWGDYBID EF, he was suspected.	'NAWB AC YN Y MAN, now and then.
GOLEU LEUAD, moonlight.	AROS, await.
CESAIL, arm; arm-pit.	PRAWF, trial.
ADDFED, ripe.	CYFADDEFODD, confessed.
YR OEDD AR FEDR, he was about.	PECHOD, sin.
DYCHWELYD YN OL, returning.	TEUGAREDD, mercy.
	UCHOD, above.
	DYSGWN, let us learn.

49. – Gweithred Anrhydeddus.

THEIMLAI hen ŵr oedd wedi casglu swm mawr o arian fod ei ddiwedd yn agos, a rhanodd ei eiddo rhwng ei dri mab. Wedi hyny, dododd berl gwerthfawr o'r neilldu, yr hwn a fwriadai rod-di i'r mab a fuasai wedi cyflawni y weithred fwyaf anrhydeddu yn ystod ei oes. "Fy nhad," meddai y mab hynaf, "ymddiriedodd dyn dyeithr swm mawr o arian i mi. Nid oedd ganddo unrhyw ddangosiad wedi ei ysgrifenu genyf, gallaswn yn hawdd berchenogi yr arian, ond pan ofynodd i mi am danynt yn ol, rhoddais y cwbl iddo, ac ni cheisiais ddim tâl ganddo." Atebodd y tad, "Gweithred gyfiawn a wnaethost." Dywedodd yr ail fab, "Yr oeddwn yn rhodio ar hyd glanau (mîn) llyn pan y syrthiodd plentyn i'r dwfr. Rhuthrais inau i'r dwfr ar ei ol, gan beryglu fy mywyd a daethym (deuais) âg ef yn ddiogel i'w fam ar y traeth. Onid oedd hona yn weithred anrhydeddus, nhad?" "Nac

oedd, fy mab, nid oedd ond caredigrwydd naturiol, neu reddf ddynol." Yna dywedodd y mab ieuengaf. "Un noswaith dywell gwelais fy ngelyn marwol yn nghwsg ar fin clogwyn serth. Buasai y symudiad lleiaf wrth ddeffro, yn ei daflu i lawr i'r dyfnder ofnadwy. Cymerais ofal i'w ddeffro gyda gocheliad priodol, ac arweiniais ef i le diogel." "Fy mab anwylaf," meddai y tad, gan ei gofleidio, "ti bia y perl."

GEIRFA (Vocabulary).

EIDDO, property.

PERL, pearl.

GWERTHFAWB, precious; valuable.

O'R NEILLDU, aside.

ANRHYDEDDUS, noble.

OES, lifetime.

YMDDIRIEDODD, entrusted.

DANGOSIAD, receipt.

PERCHENOGI, take possession.

Y CWBL, the whole.

CEISIO, ask.

TAL, payment.

COFLEIDIO, embrace; kiss.

TI BIA Y PERL, the pearl is thine.

CYFLAWN, just.

GAN BERYGLU, at the risk of; endangering.

YN DDIOGEL, safely.

ONID OEDD HONA? was not that?

GREDDF DDYNOL, human instinct.

IEUENGAF, youngest.

GELYN MARWOL, mortal enemy.

YN NGHWSG, asleep.

AR FIN, on the brink.

CLOGWYN SERTH, steep precipice.

WETH DDEFFRO, on waking.

DYFNDER OFNADWY, fearful abyss.

GOCHELIAD, caution.

50.—Cymhwysderau da.

RHODDODD boneddwr hysbysiad mewn papyr newydd am fachgenyn i'w gynorthwyo yn ei swyddfa, a derbyniodd dros haner cant o geisiadau am y lle. O'r nifer yma, dewisodd yn fuan, un o honynt, ac yna fe ddanfonodd y lleill i gyd i ffwrdd. "Fe hoffwn wybod," ebe cyfaill i'r boneddwr, "sut y dewisasoch y bachgen hwn yn hytrach na'r lleill. Yr wyf yn deall nad oedd ganddo yr un gymeradwyaeth yn ei feddiant." "Yr ydych yn camsynied," ebe y boneddwr. "Yr oedd ganddo amryw bethau yn ei gymeradwyo i mi. Fe sychodd ei esgidiau yn lân pan ddaeth i fewn

a chauodd y drws ar ei ol yn ddystaw, gan ddangos ei fod yn drefnus, ac yn daclus. Daeth hynafgwr i'r ystafell yn ystod ein hymddiddan, a chododd y bachgen i roi lle iddo eistedd. Yr oedd hyn yn dangos ei fod yn garedig ac ystyriol. Pan ddaeth i fewn, fe dynodd ei gap, ac atebodd fy ngofyniadau yn barchus. Dangosai hyn ei fod yn foesgar. Yr oeddwn yn fwriadol wedi gosod llyfr ar y llawr. Cododd ef i fyny, a gosododd ef ar y bwrdd yn ofalus. Camodd yr holl ymgeiswyr eraill drosto. Gwelais oddiwrth hyn ei fod yn ofalus. Arosodd yn amyneddgar am ei dro i ddod i fewn, yn lle gwthio fel y lleill. Dangosai hyn ei fod yn wylaidd. Sylwais fod ei ddillad yn lân, ei wallt wedi ei ranu, ei ewinedd a'i ddanedd wedi eu glanhau." Ychwanegodd y boneddwr fod y cymhwysderau da hyn yn well na llythyrau canmoliaeth oddiwrth gyfeillion ac athrawon. Bydded i blant Cymru gofio hyn pan yn ymofyn am le.

GEIRFA (Vocabulary).

CYMHWYSDERAU, qualifications.	HYNAFGWR, old gentleman.
RHODDODD HYSBYSIAD, advertised.	YMDDIDDAN, conversation.
BACHGENYN, young lad.	YSTYRIOL, considerate.
CEISIADAU, applications.	YN BARCHUS, respectfully.
LLE, situation.	MOESGAR, polite.
DEWISASOCH YN HYTRACH, you preferred.	YMGEISWYB, applicants.
CYMERADWYAETH, recommendations.	CAMODD, stepped.
AMRYW BETHAU YN EI GYMERADWYO, many recommendations; many things to recommend him.	WYLAIDD, modest.
SYCHODD, wiped.	WEDI EI RANU, parted.
TREFNUS AC YN DACLUS, orderly and tidy.	CANMOLIAETH, recommendation.

51.—Y Meddyg a'r Ffermwr.

YR oedd ffermwr, yr hwn oedd wedi colli rhai o'i anifeiliaid drwy bla y gwartheg, yn llwyr-dybio

ei fod ef ei hun wedi ei daraw gan yr afiechyd. Gan hyny, fe ymgynghorodd â meddyg enwog, yr hwn a geisiodd chwerthin y drychfeddwl allan o hono. Ond ni chafodd y ffermwr ei foddhau, ac aeth at feddyg arall. Yr oedd hwn yn hoff o gellwair, a phan welodd sut yr oedd pethau yn sefyll, efe a'i harchwiliodd yn ofalus, gan ddweyd wrtho y medrai ei wella ef. Yna fe ysgrifenodd archeb, ac a'i seliodd i fyny, a pherodd i'r ffermwr fyned âg ef at gyfferiwr yn y dref. Ni chollodd y ffermwr ddim anser tra yn myned a'r archeb i'r fferyllydd, ond dychrynwyd ef yn ofnadwy pan ddangosodd y siopwr y nodyn iddo. Dyma'r archeb, "Y mae pla y gwartheg ar y dyn yma, cym-erwch ef i gwrnt y cefn, a saethwch ef yn ol y Ddeddf Seneddol." Nid oes eisieu dweyd i'r ffermwr wella yn fuan.

GEIRFA (Vocabulary).

MEDDYG, doctor; physician.	ARCHWILIO, to examine.
PLA Y GWARTHTEG, cattle plague.	ARCHEB, prescription; a doctor's note
YN LLWYR DYBIO, fully thought.	SELIODD, sealed.
AFIECHYD, disease.	CYFFERIWR, druggist.
GAN HYNY, therefore.	FFERYLLYDD, chemist.
YMGYNGHORODD A, he consulted.	YN OFNADWY, fearfully.
DRYCHFEDDWL, idea.	CWRT Y CEFN, back yard.
BODDHAU, to satisfy.	DEDDF SENEDDOL, Act of Parliament
CELLWAIR, to joke.	I'R FFERMWR WELLA YN FUAN, that the farmer soon got right.

EXERCISE.—Write Sentences from:—Ymddangosiad (*appearance*); ymosododd (*attacked*); gorchfygodd (*conquered*); gwiwer (*squirrel*); iâr y mynydd, (grugiâr, S. W.), (*grouse*); hanes (*history*); cyfoeth (*wealth*); lliwiau (*colours*); magu (*rear*); dail (*foliage*); cynyrchu (*produce*); anadlu (*breathe*); bargod (*eaves*); aelwyd (*hearth*); trothwy (*threshold*); llonyddwch (*quietness*); clochdy (*steeple*); gwâg (*empty*).

52.—Yr Asyn a'r plant drwg.

YR oedd tŵr o blant yn chwaraeu ar ochr y ffordd pan welsant lyffiant (broga) melyn yn ôl olwyn y drol (*cart*). Dechreusant boeni y creadur bach drwy ei bwtian â ffyn, a'i droi ar ei gefn. Chwardd-ent am ben ei ymdrechion celyd i gael ei goesau odditano drachefn. Tra yr oeddynt yn difyru eu hunain mewn dull mor greulawn, delai asyn ar hyd y ffordd, yn araf, gan dynu llwyth trwm ar ei ol. Dywedodd un o'r bechgyn drwg, "Gadewch i ni droi y lyffiant ar ei gefn i ni gael gweled yr olwyn yn myned drosto; caiff ei wasgu i farwolaeth." Cytunodd y lleill â'r cynygiad creulawn. Deuai yr asyn yn mlaen tuag atynt yn araf, ond arosodd yn sydyn pan welodd y lyffiant. Curodd y gyrwr ef, ond gwrthododd yr asyn symud yn mlaen. Ar hyn, gwthiodd yr anifail y llwyth yn ol a'i holl nerth, nes aeth yr olwyn allan o'r ôl. Yna, aeth ymlaen drachefn, ac achubodd fywyd y lyffiant. Teimlai y plant eu bod wedi cael cerydd gan y creadur mûd. Ni ddarfu iddynt aflonyddu ar y creadur bach wed'yn. Dylem gymeryd gofal yn wastad rhag bod ein difyrwch ni yn poeni erail.

GEIRFA (Vocabulary).

LYFFANT MELYN, (broga, S.W.), frog.	Y LLEILL, the others.
OL OLWYN, rut.	CYNYGIAD, proposal.
POENI, annoy.	GYRWR, driver.
PWTIAN, to poke.	GWTHIODD, pushed.
YMDRECHION, struggles; efforts.	OLWYN, wheel.
DULL, manner; way.	EU BOD WEDI CAEL CERYDD, that they were reproved.
DEUAI, DELAI, came; was coming	MUD, dumb.
GADEWCH I NI DROI, let us turn.	AFLONYDDU AR, disturb.
I NI GAEL GWELED, that we may see.	DIFYRWCH, amusement.
GWASGU, to crush.	

53.—Y Boneddwr a'r wraig weddw.

AETH boneddwr cyfoethog allan i hela ar ei ystâd. Gan iddi droi allan yn ddiwrnod niwliog, collodd ei ffordd, a goddiweddwyd ef gan y nos mewn lle anial. O'r diwedd, daeth at dŷ amaethwr yn llesg ei gerddediad ac yn lleidiog ei wisg. Gofynodd am gael llety yno dros y nos. Gan eu bod yn credu mai crwydryn ydoedd, gwrthodasant ei gais iddo. Aeth at amaethdy arall, a chafodd yr un croesaw oer yno. O'r diwedd, daeth at fwthyn gwraig weddw, ac yma cafodd y croesaw mwyaf, a llety cysurus dros y nos. Yn mhen ychydig ddyddiau daeth boneddwr mewn cerbyd pedair olwyn at ddrws y bwthyn, a gofynodd am weled y wraig weddw oedd yn byw yno. Daeth hithau i'r drws, a dywedodd y boneddwr wrthi mai efe oedd wedi bod yn cysgu yno ychydig amser yn ol, ac mai efe oedd perchenog yr ystâd oedd o'i hamgylch. Yr oedd am roddi y bwthyn iddi tra fyddai hi byw yn ddiardreth, ynghydâ swm neillduol o arian yn wythnosol. "Sut y darfu i chwi fod mor garedig wrthyf," meddai, "pan yr oedd pawb yn gwrthod llety noson i mi?" "O," meddai, "cofio ddarfu mi am y Gŵr fu heb le i roi ei ben i lawr." Cofiwch mai bod yn garedig yw bod yr un fath a Iesu Grist, ac fod gwir garedigrwydd yn sicr o gael ei wobrwyo.

GEIRFA (Vocabulary).

YSTAD, estate.

GAN IDDI DROI, as it turned.

NIWLIOG, foggy; misty.

GODDIWEDDWYD, was overtaken.

ANIAL, wild.

YN LLESG EI GERDDEDIAD, plodding wearily.

DI-ARDRETH, free of rent.

YNGHYD A, together with.

NEILLDUOL, particular.

SUT? how?

DARFU I CHWI FOD, did you happen to be.

LLETY NOSON, a night's lodgings.

YN LLEIDIOG EI WISG, with dirty clothes.

LLETY, lodgings.

GWRTHODASANT, they refused.

CAIS, request.

CROESAW, welcome.

BWTHYN GWRAIG WEDDW, a widow's cottage.

CYSURUS, comfortable.

CERBYD PEDAIR OLWYN, four wheeled carriage; four wheeler.

COFIO A DDAEFU I MI, I remembered.

GWR, Man; Him.

I ROI, to lay.

A FU, that was.

YR UN FATH, the same.

MAI BOD YN GAREDIG, that to be kind

GWOBRWYO, to reward.

54.—Y Pysgotwr a'r pysgodyn bach.

DALIODD pysgotwr bysgodyn bychan iawn. Erfyniai y creadur truan arno ei dafu yn ol eto i'r dwfr a dywedai, "Pa les yw fy nal, nid wyf eto yn ddigon mawr? Rhoddwch amser i mi dyfu. Taflwch fi yn ol i'r afon, a gellwch fy nghael pan y byddaf yn fwy. Yna byddaf yn bysgodyn braf, yn lle bod fel yr wyf yn awr, yn brin damaid i chwi. Atebodd y pysgotwr, "Nid yw o ddim lles siarad, yr wyf yn siwr o honot y tro yma, ond os gollyngaf di i'r dwfr drachefn, y mae yn amheus genyf a fydd i mi dy weled eto. Rhoddaf di yn fy nghawell, a chei fyned i'r badell ffrio heno." Eglura y chwedl yma y ddiareb, "Mae deryn mewn llaw yn well na dau mewn llwyn."

GEIRFA (Vocabulary).

TRUAN, poor.

PA LES, what good.

YN BRIN, scarcely.

TAMAID, mouthful.

GOLLWNG, let.

MWY, bigger.

Y MAE YN AMHEUS GENYF, I doubt.

CAWELL, basket.

BADELL FFRIO, frying-pan.

DIAREB, proverb.

LLWYN, bush.

CORRECT.—I don't want nothing. Don't keep a noise. Call with your aunt when you go home. My brother goes with his book to the school. I go with the train to Carmarthen. I touched in it, and have

burnt my finger. Do you hear that bad smell? I hear some pain in my side. John tell me he not done it. He go out last night without saying nothing. The little girl has gone out without nobody to look after her. He told to him to go to his place. David laughed on my head. I hear the fish under the stone with my hand. Turn your tea. The forehead of the chapel fell down. The thousand-dog (*milgi*) has catch a hare. The farmer works with the hay. I beg on you to come. Please rise that book for me. Go and the slate to school. John broke his book. Shake the cradle. I am going to pull my picture. What is the matter on you? It is raining snow to-day. I have sold the blue mare (*y gaseg lās*) and her chicken (*cyw*).

TRANSLATE :—

7, *Heol y Bont*,
Aberdare,

Mai 24ain, 1893.

Fy anwyl Fam,

* *Y mae dros fis yn awr er pun ysgrifenaais atoch o'r blaen. Yr adeg hono, fel yr ydych yn cofio, yr oeddw'n yn cwyno; ond yr wyf wedi gwella erbyn hyn. Yr wyf yn eithaf hapus yn fy lle newydd, ac yr wyf yn hoff iawn o fy meistres. Y mae hi yn garedig iawn wrthyf. Yr oedd y gwaith, ar y dechreu, yn ddyeithr i mi; canys nid ydynt yn gwneud pob peth yr un fath yma ag yn Sir Aberteifi. Chwi synech weled gymaint o bobl sydd yn Aberdâr. Bob*

NODIADAU.—(1.) Sylwch sut i ddechreu ac i ddiweddu y llythyr. Dechreuwch ar ol cyfarêch yr un yr ydych yn ysgrifenu ato (ati), tua lle • — nid ar fin y ddalen. (2.) Os na fyddwch yn adnabod y person yn dda, diweddwch gyda "*Yours faithfully*," "*Yours respectfully*," neu "*Yours truly*."

nos Sadwrn y mae yr ystrydoedd yn llawn o honynt, Boreu y Sul yr wyf yn myned i'r Ysgol Sul, ac erbyn hyn yr wyf yn hoffi y dosbarth a'r athraw yn fawr. Yr wyf yn darllen y Beibl newydd roisoch i mi bob nos. Gobeithio eich bod chwi a modryb Mari yn iach ac yn hapus. Cofiwch fi yn garedig at Gwen Davies, Tŷmawr. Hoffwn pe bai hi yn dyfod i'r dref fawr yma. Cai le ar unwaith. Ysgrifenuch yn ol yn fuan.

Yr eiddoch yn serchog,

Eich merch, MARI.

10, High Street,

Llanbedr,

Mehefin 1af, 1893.

Anwyl Syr, (neu Syr,)

Gwelaf yn y papyr newydd fod arnoch eisieu hogyn i'ch cynorthwyo yn eich swyddfa. Yr wyf fi yn dymuno cynyg fy hun i'ch gwasanaeth. Yr wyf wedi pasio y seithfed safon yn ysgol y Bwrdd, ac y mae y llythyr yma yn ddangosiad (engraifft) o'm llaw-ysgrif. Yr wyf yn amgau llythyr canmoliaeth oddiwrth Mr. Jones, fy Athraw. Os penodir ji, gwnaaf fy ngoreu i'ch boddioni drwy fod yn onest, yn eirwir, yn brydlon, ac ufudd i'ch gorchymynion, fel y'm dysgwyl i fod ar bob amgylchiad gan fy Athrawon a'm Rhieni.

Ydwyf, Syr,

Yr eiddoch yn barchus,

JOHN DAVIES.



